

POLISI DRAFFT I'W FABWYSIADU

POLISI DIOGELU DATA

Cynnwys

1. Polisi Diogelu Data
2. Arweiniad i aelodau staff ar gyfrifoldebau
3. Polisi mewn perthynas â mynd i'r afael â chais gan aelodau'r cyhoedd i gael mynediad at eu gwybodaeth bersonol eu hunain

Fersiwn 1

Ebrill 2018

1. Mae **Corff Llywodraethu YGG Cwmllynfell** yn ymroddedig i sicrhau ei gydymffurfiaid â gofynion Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018 sydd ar ddod ('y Ddeddfwriaeth'). Rydym yn cydnabod pwysigrwydd data personol i'n sefydliad a phwysigrwydd parchu hawliau preifatrwydd unigolion. Mae'r Polisi Diogelu Data hwn ('y Polisi') yn nodi'r holl egwyddorion y byddwn yn eu dilyn wrth brosesu data personol er mwyn i ni ddiogelu un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr a phrosesu data personol yn unol â'r gyfraith.
2. Cyfrifoldeb ein holl weithwyr yw cynorthwyo'r Corff Llywodraethu i gydymffurfio â'r Polisi hwn. Er mwyn helpu gweithwyr i gydymffurfio, rydym wedi llunio Nodyn Arweiniol ar y Polisi Diogelu Data ('yr Arweiniad') sy'n esbonio gofynion y Ddeddfwriaeth yn fanylach. Mae'n rhaid i weithwyr fod yn gyfarwydd â'r Polisi hwn a'r Arweiniad a dilyn eu darpariaethau mewn perthynas â phrosesu unrhyw ddata personol. Gallai peidio â gwneud hyn arwain at gamymddwyn, sy'n fater disgyblu a gallai arwain at ddiswyddo yn y pen draw. Ar ben hynny, gallai toriadau difrifol o ran y ddeddfwriaeth arwain at atebolrwydd troseddol personol i'r staff dan sylw.
3. Yn ychwanegol, gallai methu cydymffurfio â'r Polisi hwn arwain at gamau gorfodi i'r busnes gan y Comisiynydd Gwybodaeth (a allai arwain at osod cyfyngiadau ar ein defnydd o ddata personol) neu at gwynion neu hawliadau ar gyfer iawndal gan unigolion yr effeithiwyd arnynt. Efallai y bydd cyhoeddusrwydd negyddol o ganlyniad i unrhyw doriad sy'n gyhoeddus.
4. At ddiben y ddogfen hon:

Data	sef gwybodaeth – (a) sy'n cael ei phrosesu gan gyfarpar sy'n gweithredu'n awtomatig mewn ymateb i gyfarwyddiadau a roddwyd at y diben hwnnw, (b) sy'n cael ei nodi gyda'r bwriad o'i phrosesu gan ddefnyddio cyfarpar o'r fath, (c) sy'n cael ei nodi fel rhan o system ffeilio berthnasol neu gyda'r bwriad y dylai fod yn rhan o system ffeilio berthnasol, (ch) nad yw paragraffau (a), (b) neu (c) yn berthnasol iddi, ond sy'n rhan o gofnod hygyrch fel y'i diffinnir gan Adran 68, neu (d) sy'n wybodaeth gofnodedig a gedwir gan unrhyw Gorff Llywodraethu cyhoeddus ac nid yw'n rhan o unrhyw baragraff o (a) i (ch).
Rheolwr Data	rhywun sydd (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y

	cyd ag unigolion eraill) yn penderfynu ar y dibenion y prosesir data personol ar eu cyfer neu'r dull o brosesu data o'r fath.
Prosesydd Data	mewn perthynas â data personol, dyma unrhyw berson (heblaw am un o weithwyr y rheolwr data) sy'n prosesu'r data ar ran y rheolwr data.
Gwrthrych y data	unigolyn sy'n wrthrych data personol.
Data Anghywir	sef gwybodaeth neu ddata sy'n anghywir neu'n gamarweiniol mewn perthynas ag unrhyw fater ffeithiol.
Data Personol	dyma ddata sy'n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod – (a) o'r data hwnnw, neu (b) o'r data a gwybodaeth arall sydd gan y rheolwr data, neu sy'n debygol o ddod i'w law, ac mae'n cynnwys mynegi unrhyw farn am yr unigolyn, a nodi unrhyw fwriad gan y rheolwr data neu unrhyw un arall o ran yr unigolyn.
Prosesu	mewn perthynas â gwybodaeth neu ddata, gall prosesu olygu cael, cofnodi neu ddal yr wybodaeth neu'r data neu gynnal unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau am yr wybodaeth neu'r data, gan gynnwys – (a) trefnu, addasu neu newid yr wybodaeth neu'r data, (b) adfer, ystyried neu ddefnyddio'r wybodaeth neu'r data, (c) datgelu'r wybodaeth neu'r data drwy eu trosglwyddo, eu lledaenu neu eu gwneud ar gael mewn ffordd arall, neu (ch) trefnu, cyfuno, blocio, dileu neu ddinistrio'r wybodaeth neu'r data.
Derbynnydd	mewn perthynas â data personol, dyma unrhyw berson y datgelir data iddo, gan gynnwys unrhyw berson (megis gweithiwr neu asiant y rheolwr data, prosesydd data neu weithiwr neu asiant prosesydd data) sy'n rhan o'r broses prosesu data ar ran y rheolwr data, ond nid yw'n cynnwys unrhyw berson y datgelir data iddo neu efallai y datgelir data iddo o ganlyniad i ymholiad penodol gan y

	person hwnnw, neu ar ei ran, a wnaed wrth arfer unrhyw bŵer a roddwyd iddo gan y gyfraith.
Data Personol Sensitif	sef data personol sy'n cynnwys gwybodaeth megis - (a) hil neu ethnigrwydd gwrthrych y data, (b) ei farn wleidyddol, (c) ei gredoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg, (ch) a yw'n aelod o undeb llafur (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhai) 1992), (d) ei iechyd neu ei gyflwr corfforol neu feddyliol, (dd) ei fywyd rhywiol, (e) cyflawni neu achos honedig o gyflawni unrhyw drosedd gan yr unigolyn, neu (f) unrhyw achos oherwydd unrhyw drosedd a gyflawnwyd ganddo neu yr honnir iddo ei chyflawni, penderfyniad achos o'r fath neu ddedfryd gan unrhyw lys mewn achos o'r fath.
Trydydd Parti	unrhyw berson heblaw am – (a) wrthrych y data, (b) y rheolwr data neu (c) unrhyw brosesydd data neu berson arall sydd â'r awdurdod i brosesu data ar gyfer y rheolwr data neu'r prosesydd

Egwyddorion Diogelu Data

5. Bydd y Corff Llywodraethu'n cydymffurfio â'r egwyddorion canlynol mewn perthynas ag unrhyw ddata personol y mae'n ei brosesu fel rheolwr data. Mae'n rhaid i'r data:
 - 5.1 gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas ag unigolion;

- 5.2 cael ei gasglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon, ac ni ddylid ei brosesu ymhellach mewn unrhyw ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r dibenion hynny; nid ystyrir bod prosesu ymhellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystategol yn anghydnaws â'r dibenion cychwynnol;
- 5.3 bod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y cânt eu prosesu ar eu cyfer;
- 5.4 bod yn gywir ac yn gyfredol, lle y bo'n briodol; mae'n rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw ddata personol sy'n anghywir yn cael ei ddileu neu ei gywiro heb oedi, gan ystyried y dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer.
- 5.5. cael ei gadw ar ffurf nad yw'n caniatáu i wrthrychau data gael eu hadnabod am gyfnodau hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y prosesir y data personol ar eu cyfer; gellir cadw data personol am gyfnodau hwy i'r graddau y caiff y data personol ei brosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn unig, yn amodol ar weithredu'r mesurau technegol a sefydliadol addas sy'n ofynnol yn unol â'r GDPR er mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion; a
- 5.6 chael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau y diogelir y data personol yn addas, gan gynnwys diogelwch yn erbyn prosesau anghyfreithlon neu heb ganiatâd ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol addas.

Sail Prosesu

- 6 Amlinellir seiliau cyfreithiol prosesu yn Erthygl 6 y GDPR. Mae'n rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn berthnasol pryd bynnag y mae'r Corff Llywodraethu'n prosesu data personol:
 - 6.1 **Caniatâd:** mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i'r Corff Llywodraethu brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.
 - 6.2 **Contract:** mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract rhwng y Corff Llywodraethu a'r unigolyn, neu oherwydd ei fod wedi gofyn i'r Corff Llywodraethu gymryd camau penodol cyn cytuno ar gontract.
 - 6.3 **Rhwymedigaeth gyfreithiol:** mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol).
 - 6.4 **Buddion hollbwysig:** mae'r prosesu'n hanfodol er mwyn diogelu bywyd unigolyn.
 - 6.5 **Tasg gyhoeddus:** mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i'r Corff Llywodraethu berfformio tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer swyddogaethau swyddogol y Corff Llywodraethu, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail gyfreithiol glir.

- 6.6 **Buddion cyfreithlon:** mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer buddion cyfreithlon y Corff Llywodraethu neu drydydd parti oni bai fod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n trechu'r buddion cyfreithlon hynny. (Nid yw hyn yn gymwys os yw'r Corff Llywodraethu'n Gorff Llywodraethu cyhoeddus sy'n prosesu data er mwyn perfformio tasgau swyddogol y Corff Llywodraethu.)

Atebolrwydd

7. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu
- 7.1 roi mesurau technegol a sefydliadol addas ar waith sy'n sicrhau ac yn dangos ein bod yn cydymffurfio. Gall hyn gynnwys polisïau diogelu data mewnol megis hyfforddiant staff, archwiliadau mewnol o weithgareddau prosesu, ac adolygiadau o bolisïau AD mewnol.
- 7.2 cynnal dogfennau perthnasol ar weithgareddau prosesu;
- 7.3 penodi swyddog diogelu data;
- 7.4 rhoi mesurau ar waith sy'n bodloni egwyddorion diogelu data o'r dechrau ac yn ddiofyn. Gallai mesurau gynnwys lleihau data, defnyddio ffugenwau neu dryloywder;
- 7.5 caniatáu i unigolion fonitro prosesu; a
- 7.6 chreu a gwella nodweddion diogelwch yn barhaus.
- 7.7 defnyddio asesiadau effaith diogelu data lle y bo'n briodol.

Trefniadau Allanol

8. Os yw'r Corff Llywodraethu'n trosglwyddo data personol i unrhyw sefydliad allanol, mae'n rhaid i swyddogion sicrhau bod Cytundeb Prosesu Data ar waith. Gellir cael Cytundeb Diogelu Data addas gan yr Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol.
9. Yn ychwanegol, rhaid i unrhyw gontractau allanol nodi cynnwys a hyd y prosesu, natur a diben y prosesu, y math o ddata personol a chategorïau gwrthrych y data, a goblygiadau a hawliau'r Corff Llywodraethu. Mae'n rhaid cynnwys telerau penodol hefyd a dylid ceisio cyngor gan yr Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol yn hyn o beth.

Cofrestr Asedau Gwybodaeth

10. Un o ofynion y ddeddfwriaeth yw cynnal a chadw cofnod o'r holl weithgareddau prosesu a gynhelir o fewn y Corff Llywodraethu. I wneud hyn, mae angen i ni nodi:
- 10.1 pa ddata personol rydym yn ei brosesu;
- 10.2 beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu;
- 10.3 sut rydym yn storio data a'i gadw'n ddiogel;

- 10.4 pwy sydd â mynediad iddo;
 - 10.5 â phwy rydym yn rhannu'r data a pha gytundebau sydd ar waith;
 - 10.6 am faint o amser rydym yn ei gadw.
11. Mae gan y Corff Llywodraethu Gofrestr Asedau Gwybodaeth ddynodedig y mae'n rhaid ei chwblhau ar gyfer yr holl wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn pob un o Gyfarwyddiaethau'r Corff Llywodraethu.

Swyddog Diogelu Data

- 12. Penodwyd **Lynne Brier** fel Y Swyddog Diogelu Data gan y Corff Llywodraethu.
- 13. Mae rôl y Swyddog Diogelu Data'n cynnwys
 - 13.1 Cael gwybodaeth a rhoi gwybod i'r Corff Llywodraethu am ei oblygiadau diogelu data
 - 13.2 Monitro cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Mae hyn yn cynnwys monitro cyfrifoldeb a hyfforddiant staff sy'n ymwneud â phrosesu data.
 - 13.3 sicrhau bod y Gofrestr Asedau Gwybodaeth yn gofrestrfa weithredol sy'n nodi'r holl systemau sy'n cadw data personol
 - 13.4 cynghori'r Corff Llywodraethu ar angenrheidrwydd Asesiad Effaith Diogelu Data, sut i'w roi ar waith, ac adrodd am doriad data
 - 13.5 Gwasanaethu fel cyswllt ar gyfer unigolion ar faterion preifatrwydd, gan gynnwys ceisiadau gwrthrych am wybodaeth

Gofynion Ychwanegol

- 14. Mae'n rhaid cymryd camau technegol a sefydliadol priodol os bydd data personol yn cael ei brosesu'n anghyfreithlon neu heb ganiatâd ac os bydd yn cael ei golli, ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddamweiniol.
- 15. Ni ddylid trosglwyddo data personol i wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni bai fod y wlad neu'r diriogaeth honno'n sicrhau lefel ddigonol o ddiogelwch i hawliau a rhyddid y rhai sy'n wrthrych y data mewn perthynas â phrosesu data personol.
- 16. Gellir diwygio'r Polisi hwn o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth.

POLISI DIOGELU DATA

NODYN ARWEINIOL

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Mae'r Nodyn Arweiniol hwn ('yr Arweiniad') yn ffurfio rhan o'r Polisi Diogelu Data ac yn darparu gwybodaeth atodol er mwyn galluogi gweithwyr i ddeall y Polisi Diogelu Data'n well, ac i gydymffurfio â'r polisi hwnnw.
- 1.2.1 Mae'n rhaid i **Gorff Llywodraethu YGG Cwmllynfell** gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018 ('y Ddeddfwriaeth') mewn perthynas â'r modd y mae'n prosesu data personol (megis gwybodaeth am ein cwsmeriaid, cleientiaid/defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr a chontractwyr/cyflenwyr). Mae'n bwysig bod pob gweithiwr yn gyfarwydd â'r Polisi Diogelu Data a'r Arweiniad hwn er mwyn gallu prosesu unrhyw ddata personol yn unol â'r Ddeddfwriaeth.
- 1.2.2 Dylai'r Corff Llywodraethu fod yn ymwybodol bod deddfwriaeth arall sy'n gyfrifol am reoli mynediad cyhoeddus i wybodaeth megis Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a bydd rhaid ei darllen ar y cyd â'r Ddeddfwriaeth ar adegau.
- 1.3 Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'i oblygiadau o dan y Ddeddfwriaeth. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Data a'r Arweiniad hwn pryd bynnag y mae'r Corff Llywodraethu'n prosesu data personol, yn ogystal ag unrhyw bolisi arall sy'n ymwneud â diogelu data ac sydd efallai'n berthnasol i faes gwaith y Corff Llywodraethu. GALL METHU CYDYMFFURFIO Â'R POLISI HWN FOD YN DROSEDD DDISGYBLU A ALLAI ARWAIN AT DDISWYDDO. GALLAI TORRI'R DDEDDFWRIAETH YN ESGEULUS NEU'N BWRPASOL HEFYD ARWAIN AT ATEBOLRWYDD TROSEDDOL AR GYFER AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHU'N BERSONOL.



GDPR

ARWEINIAD I GYRFF LLYWODRAETHU



Neath Port Talbot
County Borough Council

25 Mai 2018

Dyma pryd bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn dod i rym. Os ydych chi'n ymdrin â data personol yn eich rôl, mae'n hanfodol eich bod yn ymwybodol o'r gofynion.

Y Ddeddf Diogelu Data

Er bod GDPR yn ehangu'r gofynion, yn enwedig o ran dangos atebolrwydd a thryloywder, mae llawer o'r egwyddorion allweddol yr un peth â'r rheiny yn Neddf Diogelu Data 1998.

Trwy'r arweiniad hwn, byddwch yn gweld yr eicon hwn. Bydd yn tynnu sylw at unrhyw awgrymiadau defnyddiol y mae angen eu cymryd o ddifrif a chamau gweithredu y mae angen eu rhoi ar waith.



MYNEGAI



<i>Agwedd Allweddol 1 - Diffiniadau Defnyddiol</i>	4
<i>Agwedd Allweddol 2 - Chwe Egwyddor GDPR</i>	5
<i>Agwedd Allweddol 3 - Hawl Gwrthrych y Data</i>	6
<i>Agwedd Allweddol 4 - Hysbysiadau Preifatrwydd</i>	10
<i>Agwedd Allweddol 5 - Rhoi Caniatâd</i>	11
<i>Agwedd Allweddol 6 - Cofrestr o Weithgarwch Prosesu (ISA)</i>	12
<i>Agwedd Allweddol 7 - Asesiadau Effaith Diogelu Data</i>	13
<i>Agwedd Allweddol 8 - Toriadau Data</i>	14
<i>Agwedd Allweddol 9 - Rôl Swyddog Diogelu Data (DPO)</i>	15

Agwedd Allweddol 1 – Diffiniadau Defnyddiol

Dyma rai geiriau allweddol (gyda diffiniadau) a fydd yn cael eu defnyddio trwy'r arweiniad ymarferol hwn:


Gwrthrychau Data

Mae'r data rydym yn ei gasglu a'i gadw weithiau'n cynnwys manylion sy'n gysylltiedig ag unigolyn byw (gwrthrych y data). Y rhain yw ein disgyblion a'u teuluoedd ac maent yn dibynnu arnom ni i gadw eu data'n ddiogel.



Data Personol

Mae hyn yn ymwneud â set o wybodaeth sy'n gallu adnabod gwrthrych y data neu wrthrychau'r data. Yn ogystal â manylion personol amlwg yn y data y gellir eu defnyddio i adnabod unigolyn, fel enw a chyfeiriad, o dan y GDPR mae hyn yn cynnwys pethau fel data genetig a biometrig.



Data Personol Sensitif

Mae hyn yn ymwneud â data sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol, gweithgareddau gydag undeb llafur, iechyd corfforol neu feddyliol, neu fywyd rhywiol unigolyn.



Y rhagdybiaeth yw, oherwydd y gellid defnyddio gwybodaeth am y materion hyn mewn ffordd wahaniaethol ac mae'n debygol o fod yn breifat ei natur, mae angen trin data personol sensitif gyda mwy o ofal na data personol arall.

Rheolwr Data

Dyma'r corff sy'n pennu at ba ddibenion y caiff data personol/sensitif ei brosesu. Ystyrir bod pob Corff Llywodraethu yn rheolwr data, felly ar gyfer swm helaeth o'n gwaith prosesu, y Corff Llywodraethu yw'r corff sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaid â'r gofynion.

Agwedd Allweddol 2 – Chwe Egwyddor GDPR

Fel rheolwr data, mae'n rhaid i ni fod yn atebol a chadw cofnodion sy'n dangos tystiolaeth o'n cydymffurfiaid â'r egwyddorion GDPR canlynol. Byddai cadw cofnodion o'r fath yn cynnwys cofnodi unrhyw system newydd ar ein Cofrestr Asedau Gwybodaeth.

Mae'r cyngor wrthi'n trefnu ar hyn o bryd i ysgolion gael mynediad at Feddalwedd Cofrestru Asedau Gwybodaeth y cyngor er mwyn gallu sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cydymffurfio. Bydd y Gyfarwyddiaeth Addysg yn cysylltu ag ysgolion maes o law i gyflawni hyn.

1. Cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder

Gellir prosesu data personol os oes rheswm cyfreithlon dros wneud hynny'n unig. Mae'n rhaid iddo fod yn deg i wrthrych y data ac mae'n rhaid i chi fod yn gwbl dryloyw gyda gwrthrych y data o ran pam rydych yn casglu ei ddata a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio a'i rannu.

2. Cyfyngu ar Ddibenion

Dylid casglu data at ddibenion penodol, clir a chyfreithlon yn unig ac ni ddylid ei brosesu ymhellach mewn ffordd sy'n anghyson â'r dibenion hynny. Serch hynny, caniateir gwaith prosesu pellach at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, neu at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol, neu ddibenion ystadegol mewn rhai amgylchiadau.

3. Lleihau Data

Mae'n rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran y dibenion y cafodd ei brosesu ar eu cyfer.

4. Cywirdeb

Mae'n rhaid i ddata personol fod yn gywir a, lle bo angen, yn gyfredol. Lle mae data personol yn anghywir, dylid cymryd pob cam rhesymol i'w ddileu (lle bo'n briodol) neu ei gywiro'n ddi-oed.

5. Cyfyngu ar Storio

Rhaid cadw data personol mewn ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau'r data gyhyd ag sydd angen yn unig.

6. Gonestrwydd a Chyfrinachedd

Rhaid prosesu data personol mewn ffordd sy'n briodol ddiogel, gan gynnwys ei ddiogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn ei golli neu ei ddifrodi ar ddamwain, trwy ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol.

Agwedd Allweddol 3 – Hawliau Gwrthrych y Data

Un o ffactorau allweddol y GDPR yw bod gan wrthrychau'r data hawliau a dulliau diogelu penodol o ran eu data personol. Mae hyn yn cynnwys:

Casglu eu Data

Pan fyddwn yn casglu data gan ein dinasyddion, mae'n rhaid i ni eu **hysbysu** o'r rhesymau pam rydym yn ei gasglu a'u hawliau. Mae dyletswydd arnom hefyd i sicrhau bod y data a gesglir yn **gyfyngedig** i'r hyn sy'n angenrheidiol o ran ei ddiben ac nid ydym yn ei ddefnyddio at ddiben **gwahanol** heb ganiatâd neu geisio cyngor cyfreithiol ymlaen llaw.



Dyma'r pedwar rheswm pam rydym yn gallu prosesu data personol yn gyfreithlon:

- 1. Rhwymedigaeth Gyfreithiol:** Mae'r prosesu'n angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Gwybodaeth yw hon y mae'n rhaid i chi ei chasglu am ei bod hi'n ofynnol yn ôl y gyfraith.
- 2. Tasg Gyhoeddus:** Mae'r prosesu'n angenrheidiol i berfformio tasg er budd y cyhoedd neu i arfer awdurdod swyddogol. Dyma lle cewch eich grymuso gan gyfraith ond nid oes rhaid i chi ddarparu gwasanaeth (e.e. cyfleusterau hamdden);
- 3. Contract:** Mae'r prosesu'n angenrheidiol fel rhan o gontract penodol neu ymhlyg. Bydd hyn yn berthnasol pan fyddwch yn cynnig cynlluniau aelodaeth sydd wedi'u talu neu am ddim, megis aelodaeth o lyfrgell, clybiau ar ôl ysgol, clybiau chwaraeon;
- 4. Caniatâd:** Mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol. Dyma'r opsiwn a ffefrir leiaf am ei fod yn rhoi mwy o gyfrifoldeb dros y ffordd y rheolir eich data.

Felly, os ydych yn casglu data personol trwy ffurflen gais neu arolwg, er enghraifft, mae'n rhaid i chi nodi ar y ffurflen "Pam rydym yn casglu'r data hwn" a "Beth rydym am ei wneud gyda'r data hwn" (datganiad preifatrwydd). Mae'n rhaid i chi hefyd ddarparu dolen at hysbysiad preifatrwydd yr ysgol. Os nad oes angen i chi ganfod dyddiad geni'r unigolyn er enghraifft wrth gasglu data ar y ffurflen, **ni ddylech ofyn amdano!**



Os ydych yn defnyddio'r data hwn at ddiben gwahanol heb gael caniatâd gan wrthrych y data, yna rydych yn torri ail egwyddor y GDPR sef cyfyngu ar ddibenion.



Agwedd Allweddol 3 – Hawliau Gwrthrych y Data

Gwrthwynebu i Ddefnyddio eu Data

Mae'r GDPR yn cynnwys "yr hawl i wrthwynebu" sy'n golygu y gall gwrthrych y data wrthwynebu i brosesu ei ddata personol. Os yw'r gwrthwynebiad i farchnata uniongyrchol, nid oes rhaid i wrthrych y data roi unrhyw resymau ac mae'n rhaid i staff gydymffurfio â'r cais.

Pan fydd gwrthrych y data'n gwrthwynebu i fathau eraill o brosesu (h.y. nid marchnata uniongyrchol) bydd eithriadau'n berthnasol. Bydd rhaid i chi drafod hyn gyda'ch rheolwr a chael cyngor gan IGU cyn parhau.

I ddangos eich bod yn cydymffurfio ag egwyddor gyntaf prosesu data personol y GDPR - ei fod yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw - mae'n rhaid i chi gynnal cofnod o unrhyw gais a wneir dan yr hawl i wrthwynebu i brosesu a hysbysu'r IGU o'ch gweithredoedd.



Dylech adolygu prosesau presennol i sicrhau pan fyddwch yn e-bostio disgyblion neu rieni at ddibenion marchnata eich bod yn cynnwys opsiwn 'datdanysgrifio' i'w galluogi i wrthwynebu defnyddio eu gwybodaeth.



Mynediad at eu Data

Gall disgyblion a'u teuluoedd/gwarcheidwaid gael mynediad at eu data drwy gais gwrthrych am wybodaeth. Mae'n rhaid ymdrin â'r ceisiadau hyn yn ddi-oed ac o fewn mis o'u derbyn.

Mae'n rhaid i ni ddarparu'r wybodaeth hon am ddim o 25 Mai 2018 ac mae'n hanfodol bod ceisiadau'n cael eu hystyried o ddifrif a'u trin yn effeithlon.

Mae'r GDPR yn egluro mai'r rheswm dros alluogi unigolion i gael mynediad at eu data personol yw fel eu bod yn ymwybodol o gyfreithlondeb y prosesu a'u bod yn gallu ei wirio.

Gallwn estyn y cyfnod cydymffurfio ddeufis arall pan fydd ceisiadau'n gymhleth neu'n niferus. Os mai dyma'r achos, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r unigolyn o fewn mis o dderbyn y cais ac esbonio pam mae angen yr estyniad.



**DWI AM
GAEL FY
NATA!**

Agwedd Allweddol 3 – Hawliau Gwrthrych y Data

Data Cywir

Ar bob adeg, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y data rydym wedi'i gasglu gan ein disgyblion a'u teuluoedd/gwarcheidwad, nawr neu yn y gorffennol, yn gywir ac yn gyfredol. Mae'n rhaid i staff gymryd camau rhesymol i sicrhau pan fo data yn anghywir, y caiff ei *gywiro* yn ddi-oed.

Dychmygwch petai eich data personol yn cael ei anfon i'r cyfeiriad anghywir gan eich banc am fod y rhif tŷ anghywir ar eu system TGCh. Sut byddech chi'n teimlo petai'ch cymydog wedi agor y llythyr a darllen manylion personol penodol amdanoch chi?



Mae pawb yn brysur, ond weithiau mae staff yn poeni mwy am gwblhau eu tasgau yn hytrach na sicrhau bod data ein dinasyddion yn ddiogel. Mae'n rhaid i hyn newid o dan GDPR neu byddwch yn rhoi'r Corff Llywodraethu mewn perygl o dderbyn dirwyon a difetha ei enw da.

Mae hawl i gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth i adrodd am achosion pan rydym wedi methu cadw data unigolyn yn gywir neu pan fydd diogelwch eu data wedi cael ei dorri. Gallai hyn arwain at dalu iawndal i'r dinesydd ar ben y ddirwy.

Storio Data

Mae gan ddinasyddion yr hawl i sicrhau na chaiff eu data ei gadw gennym am fwy o amser na'r hyn sydd ei angen.

Mae'n rhaid i staff sicrhau *nad ydym yn cadw data* am fwy o amser na'r hyn sy'n ofynnol. Cofiwch fod yr holl ddata rydym wedi'i gadw yn agored i geisiadau gwrthrych am wybodaeth a cheisiadau rhyddid gwybodaeth.



Os yw eich rôl yn ymwneud â phrosesu data, rydych yn atebol am ddiogelu'r data hwn rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled neu ddifrod damweiniol.

Mae staff yn gyfrifol am sicrhau bod pob dyfais TGCh wedi'i hamgryptio rhag ofn i'r ddyfais sy'n storio'r data fynd ar goll neu gael ei dwyn.



Rhannu Data

Wrth rannu data ag asiantaethau allanol (Llywodraeth Cymru neu ysgolion eraill) dylech sicrhau bod Cytundeb Prosesu Data ar waith a gellir cael cyngor ar hyn gan Is-adran Gyfreithiol y cyngor.

Agwedd Allweddol 3 – Hawliau Gwrthrych y Data

Dileu Data

Dan amodau penodol, gall dinasyddion bellach wneud cais i'w data personol gael ei ddileu. Dyma'r amodau, y mae'n rhaid bodloni un ohonynt:

- nid yw'r data personol yn angenrheidiol mwyach mewn perthynas â'r dibenion y cafodd ei gasglu neu, fel arall, ei brosesu ar eu cyfer,
- lle mai caniatâd yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu, mae gwrthrych y data yn tynnu ei ganiatâd i ni ei ddefnyddio yn ôl, neu
- mae'r data personol wedi mynd heibio'r cyfnod cadw a ddiffiniwyd yn yr atodlen cadw cofnodion corfforaethol.



**DWI AM
GAEL FY
ANGHOFIO!**

Os yw unrhyw elfen o ddata personol ein dinasyddion wedi cael ei wneud yn gyhoeddus drwy drydydd parti yna mae'n rhaid i ni gymryd camau rhesymol i hysbysu'r proseswyr data sy'n prosesu'r data personol ar ein rhan fod gwrthrych y data wedi gofyn i'w data gael ei ddileu.



Mae'r hawl i unigolyn gael ei anghofio yn berthnasol pan fodlonir yr amodau uchod yn unig ac mae eithriadau pellach lle gallwn wrthod cydymffurfio â chais:



- Os yw'n gwrthdaro â'r "hawl i ryddid mynegiant"
- Angen hollbwysig i lynu wrth gydymffurfiaid cyfreithiol
- Rhesymau er budd y cyhoedd ym maes iechedd cyhoeddus
- Ymchwil gwyddonol, hanesyddol neu ddibenion archifo er budd y cyhoedd
- Os yw'r data'n ofynnol ar gyfer cefnogi hawliau cyfreithiol.

Agwedd Allweddol 4 – Hysbysiadau Preifatrwydd

Cyfathrebu â'n Dinasyddion

Mae bod yn dryloyw a darparu gwybodaeth hygyrch i'n dinasyddion am sut byddwch yn defnyddio eu data yn elfen allweddol o'r GDPR. Mae'n rhaid i ni roi gwybod i wrthrychau'r data o'r cychwyn cyntaf yr hyn i'w ddisgwyl pan fyddwn yn casglu eu data personol.

Fel rhan o'n taith i gydymffurfio â'r GDPR, rydym wedi ysgrifennu hysbysiad preifatrwydd corfforaethol dwyieithog newydd sydd ar ein gwefan.

Mae'n rhaid cynnwys yr hysbysiad preifatrwydd hwn fel dolen yn eich gohebiaeth pan fyddwch yn gofyn i ddinasyddion ddarparu eu data personol, e.e. ar ffurflen gais neu gais am wasanaeth.

Gellir cael cyngor ar hysbysiadau preifatrwydd gan Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol neu Is-adran TGCh y cyngor.



Cynnwys Datganiad Preifatrwydd

Wrth gasglu data personol gan y cyhoedd (fel arfer gwneir hyn ar-lein neu ar ffurflen bapur), mae'n rhaid i chi ddarparu gwybodaeth fwy penodol na'r hyn a gynhwysir yn yr hysbysiad preifatrwydd corfforaethol trosgynnol.

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod datganiad preifatrwydd byr ar y ddogfen casglu data sy'n esbonio'ch defnydd o'r data, â phwy rydych yn ei rannu a beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data.

Fel a grybwyllwyd ar dudalen 6 yr arweiniad hwn, mae pedwar prif reswm cyfreithiol i'r cyngor allu cael gafael ar ddata personol a'i brosesu ac mae'n rhaid i bob ffurflen casglu data wneud yn glir yr hyn yw'r sail gyfreithiol dros brosesu os ydym am gydymffurfio â'r GDPR.



Agwedd Allweddol 5 – Rhoi Caniatâd

Allwn ni brosesu'r data hwn?

Rydym eisoes wedi crybwyll bod caniatâd yn un o'r rhesymau cyfreithiol dros brosesu ac os gallwn osgoi dibynnu ar ganiatâd yna dylem wneud hynny. Dyma pam:

Mae'n rhaid i ganiatâd gael ei ddangos yn glir, yn ddiamwys a chynnwys gweithrediad cadarnhaol pendant.

Os ydych yn casglu data sensitif, mae'r gofyniad hyd yn oed yn uwch. Yn yr achos hwnnw, bydd rhaid i chi gael caniatâd eglur, megis datganiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan wrthrych y data.



Wnes i ddim rhoi fy nghaniatâd i chi ddefnyddio fy manylion personol ar gyfer hyn!

Dylai caniatâd fod ar wahân i amodau a thelerau eraill ac ni ddylai'n gyffredinol fod yn amod ymlaen llaw o gofrestru i wasanaeth.



Mae caniatâd yn ymwneud â chyflwyno datganiad clir i wrthrych y data ynghylch y data personol i'w gasglu; a gweithred eglur yn cytuno â'r datganiad hwn (megis ticio blwch yn dweud 'Cytunaf').



Ticiwch i roi caniatâd

Dylai'r ffurflen ddweud, "Rwy'n cydsynio" (neu debyg) i ganiatâd gael ei ystyried yn ddilys. [Mae distawrwydd neu flychau wedi'u ticio ymlaen llaw](#) ar we-dudalennau wedi'u gwahardd o dan y GDPR am nad ydynt yn sefydlu caniatâd clir.



Tynnu caniatâd yn ôl

Mae'r GDPR yn rhoi hawl penodol i dynnu caniatâd yn ôl. Lle byddwn yn casglu data sy'n seiliedig yn gyfreithiol ar ganiatâd, mae'n rhaid i ni ddweud wrth bobl am eu hawl i dynnu eu caniatâd yn ôl a chynnig ffyrdd hawdd iddynt wneud hynny ar unrhyw adeg.

Mae angen i ni adolygu ein mecanweithiau caniatâd presennol i wirio eu bod yn bodloni safon y GDPR. Os ydynt, nid oes angen ceisio caniatâd o'r newydd.

Mae'n bwysig bod staff yn cynnal cofnodion priodol er mwyn cael tystiolaeth y rhoddwyd caniatâd.

Agwedd Allweddol 6 – Cofrestr Asedau Gwybodaeth (ISA)

Cynnal Cofrestr

Un o ofynion y GDPR yw cynnal cofnod o'r holl weithgareddau prosesu yr ymgwymerir â hwy yn y cyngor. Ar gyfer hyn, mae angen i ni nodi:

- pa ddata personol rydym yn ei brosesu;
- beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu;
- sut rydym yn storio'r data ac yn ei gadw'n ddiogel;
- pwy sydd â mynediad ato;
- â phwy rydym yn rhannu'r data a pha gytundebau rhannu sydd ar waith;
- am faint o amser rydym yn ei gadw.



Mae'r cyngor wrthi'n trefnu ar hyn o bryd i ysgolion gael mynediad at Feddalwedd Cofrestru Asedau Gwybodaeth y cyngor er mwyn gallu sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cydymffurfio. Bydd y Gyfarwyddiaeth Addysg yn cysylltu ag ysgolion maes o law i gyflawni hyn.

Darparu Trosolwg

Bydd y cofnod yn darparu trosolwg o'r holl weithgareddau prosesu data yn ein cyngor ac felly bydd yn ein galluogi i ddangos i'r Comisiynydd Gwybodaeth pa ddata personol sy'n cael ei brosesu, gan bwy a pham.

Eich Cyfrifoldeb Chi

Os ydych yn casglu ac yn cadw data personol yn electronig yn eich gwasanaeth yna mae angen i chi nodi'r system ar y cofnod. Mae'n rhaid i chi gadw'r wybodaeth hon yn gyfredol.



SYLWER: Os nad ydych wedi nodi eich system ar y cofnod a chaiff diogelwch data ei dorri, bydd yr ICO yn cyflwyno dirwyon llawer mwy sylweddol.

Agwedd Allweddol 7 – Asesiadau Effaith Diogelu Data

Asesu'r Risg

Mae Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA) yn ddull y mae angen i ni ei gyflwyno o dan y GDPR newydd ar gyfer *asesu'r risg* sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau rydym yn ymgymryd â hwy i brosesu data personol.

Pan gaiff system newydd ei dylunio neu ei chyflwyno, neu mae system bresennol yn cael ei newid drwy brosiect, mae'n rhaid i staff gynnal DPIA i bennu'r risg i breifatrwydd unigolion sy'n gysylltiedig â'r prosesu.

Bydd DPIA yn:



- Helpu'r prosiect i gael ffocws clir ar ddiogelu data
- Galluogi i fesurau technolegol a sefydliadol priodol i ddiogelu'r wybodaeth gael eu cynnwys mewn unrhyw weithrediad newydd.
- Herio'r dylunydd i ddatblygu ffordd o weithio a fydd yn hyrwyddo egwyddorion diogelu data
- Rhoi atebion ymarferol i alluogi gwrthrych data i arfer ei hawliau.

Yn yr un modd â'r asesiadau effaith cydraddoldeb yr ymgwymerir â hwy gan y cyngor eisoes, os nad ydych yn sicr a oes angen asesiad llawn, rydych yn cynnal ymarfer sgrinio syml a fydd yn llywio'ch penderfyniad.

Ni ddylai diogelu data fod yn swyddogaeth neu'n ystyriaeth eilaidd wrth ddylunio gweithgarwch prosesu newydd. Mae'n hanfodol felly nad yw staff, arweinwyr prosiectau a rheolwyr yn gadael i egwyddorion diogelu data a hawliau dinasyddion o dan y GDPR gael eu hystyried ar gam hwyr yn y broses gynllunio a dylunio.

Yn unol â'r GDPR, gall methu cynnal asesiad effaith pan fo un yn angenrheidiol arwain at weithgarwch gorfodi a dirwy gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Agwedd Allweddol 8 – Toriadau Data

Mae gan bob ysgol broses bresennol ar waith i ganfod toriad data personol, adrodd amdano ac ymchwilio iddo. Mae'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfrifol am ymchwilio i bob toriad data ac adrodd amdano yn y cyngor ac mewn ysgolion.

Serch hynny, mae'r GDPR yn cyflwyno terfyn amser newydd i roi gwybod am doriadau lle bydd rhaid i ni roi gwybod i'r Comisiynydd Gwybodaeth am doriadau difrifol o fewn 72 awr o ganfod y toriad. Gallai methu adrodd am doriad o fewn y terfyn amser arwain at ddirwy ynghyd â dirwy am y toriad ei hun. Gallai'r ddirwy fod hyd at **£17,000,000**.

Gall y dirwyon hyn fod yn symiau sylweddol a all effeithio'n ddifrifol ar waith yr ysgol ynghyd â cholli enw da o ganlyniad i sylw cysylltiedig gan y wasg.

Effaith Toriad Data

Mae'r 24 awr gyntaf yn hollbwysig! Gall toriad data gael amrywiaeth o effeithiau andwyol sylweddol ar hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data. Gall y toriad beri niwed corfforol, materol neu anfaterol iddynt. O ganlyniad i'r toriad, mae'n bosib y bydd perygl o gam-drin domestig neu dwyll cerdyn credyd.

Pan nodir toriad, dylech adrodd amdano cyn gynted â phosib yn unol â pholisi'r cyngor.

Mae'n rhaid i staff ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i leihau effaith y toriad.

Camau Gweithredu Allweddol



Pan fydd toriad data, dyma'r *camau gweithredu allweddol* i'w dilyn:

- Os oes risg uchel i wrthrych y data oherwydd y toriad (e.e. dwyn hunaniaeth, twyll neu gam-drin domestig) yna dylid dweud wrtho ar unwaith er mwyn iddo allu cymryd camau gweithredu i ddiogelu ei hun;
- Mae cyfyngiant yn allweddol. Os yw'n bosib cael y data yn ôl gan y derbynnydd anawdurdodedig, dylid gwneud hynny ar unwaith;
- Wrth gael y data yn ôl ganddo, dylech gadarnhau na chafodd unrhyw gopïau o'r data eu creu na'u rhannu;
- Gofynnwch a yw wedi darllen y ddogfen gyfan neu rannau yn unig ac a yw'n adnabod y person a ddylai fod wedi derbyn yr wybodaeth hon.
- Adroddwch am y toriad.

Agwedd Allweddol 9 – Swyddog Diogelu Data

(DPO)

Mae'r GDPR yn cyflwyno gofyniad i benodi neu ddynodi Swyddog Diogelu Data (DPO) gyda chyfrifoldeb ffurfiol am gydymffurfiaid diogelu data ar draws y cyngor.

Mae'n rhaid i bob Corff Llywodraethu benodi DPO a fydd yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiaid â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Mae tasgau'r DPO yn cynnwys:

- Hysbysu ei weithwyr o'u rhwymedigaethau diogelu data,
- Monitro cydymffurfiaid polisiâu a gweithdrefnau. Mae hyn yn cynnwys monitro cyfrifoldebau a hyfforddiant staff sy'n gysylltiedig â phrosesu data,
- Sicrhau bod yr ISA yn gofrestr fyw sy'n nodi pob system sy'n cadw data personol;
- Cyngori ar angenrheidrwydd asesiadau effaith diogelu data (DPIA), y ffordd y cânt eu gweithredu a'u canlyniadau,
- Gwasanaethu fel y pwynt cyswllt ar gyfer pob mater ynghylch diogelu data, gan gynnwys rheoli risgiau ac adrodd am doriadau data,
- Gwasanaethu fel y pwynt cyswllt ar gyfer unigolion (gwrthrychau data) ar faterion preifatrwydd, gan gynnwys ceisiadau gwrthrych am wybodaeth.

Gall Cyrff Llywodraethu ymdrin â hyn mewn sawl ffordd:

- Gallant benodi aelod o staff yn yr ysgol yn Swyddog Diogelu Data. Dylai'r swydd hon fod yn ddigon pwysig yn yr ysgol a bod ar y lefel reoli uchaf neu adrodd yn uniongyrchol i'r lefel reoli uchaf.
- Gallant gyfuno ag ysgol arall a phenodi Swyddog Diogelu Data sy'n gallu bodloni rhwymedigaeth mwy nag un ysgol.

Bydd y cyngor yn penodi Swyddog Gwybodaeth i gynorthwyo ysgolion i sicrhau cydymffurfiaid â GDPR. Bydd y cyngor yn ariannu'r swydd hon ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/2019 gyda'r ddealltwriaeth y bydd ysgolion wedyn yn ariannu'r swydd o fis Ebrill 2019; caiff y costau eu rhannu'n uniongyrchol rhwng yr ysgolion (swm i'w bennu).

**MYND I'R AFAEL Â CHEISIADAU GAN
AELODAU'R CYHOEDD AM FYNEDIAD AT
EU GWYBODAETH BERSONOL EU
HUNAIN**

Cyflwyniad

1. Mae Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018 (y "Ddeddfwriaeth") yn darparu'r hawliau canlynol i unigolion:
 - (a) Yr hawl i gael gwybodaeth
 - (b) Yr hawl i gael mynediad
 - (c) Yr hawl i gael cywiriad
 - (ch) Yr hawl i ddileu
 - (d) Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
 - (dd) Yr hawl i drosglwyddo data
 - (e) Yr hawl i wrthwynebu
 - (f) Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio.
2. Gellir cyflwyno ceisiadau am wybodaeth ar ran person arall hefyd (lle mae gan y person sy'n cyflwyno'r cais awdurdod cyfreithiol i wneud hynny, neu lle mae ganddo ganiatâd y gwrthrych), er enghraifft rhiant ar ran ei blentyn neu gyfreithiwr yn ôl cyfarwyddyd ei gleient.
3. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r arweiniad ar yr hawliau amrywiol sydd ar gael i unigolion (fel a amlinellwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth - gallwch gael mwy o fanylion ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn www.ico.gov.uk) ac mae'n cynnig proses pedwar cam sy'n esbonio sut i fynd i'r afael â cheisiadau am wybodaeth bersonol nad oes modd mynd i'r afael â hwy mewn modd anffurfiol. Er y nodir amserlenni penodol ar gyfer cwblhau pob cam, os yw'n bosibl mynd i'r afael â chais ac ymateb iddo mewn amser byrrach, mae'n rhaid i ni wneud hynny.

ARWEINIAD I'R CORFF LLYWODRAETHU AR YMATEB

CAM 1

Derbyn y cais am wybodaeth

Dechreuwa'r cyfnod o amser i roi ymateb ar ôl i'r Corff Llywodraethu dderbyn y cais, nid ar y dyddiad y cafodd ei dderbyn gan y Swyddog sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â'r cais.

Rhoi gwybod i'r swyddog dynodedig a chydabod y cais

Dylid penodi swyddog dynodedig i fynd i'r afael â cheisiadau mewn perthynas â'r isadran honno.

Os caiff cais cyffredinol ei dderbyn, e.e. i gael "yr holl wybodaeth y mae gan y Corff Llywodraethu amdanat", dylai swyddogion drafod â'r ymholwr gan esbonio, er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth honno, y byddai'n ddefnyddiol i'r person a gyflwynodd y cais esbonio pa isadrannau o'r Corff Llywodraethu roeddent wedi ymdrin â hwy. Nid yw'r Corff Llywodraethu'n cadw cronfa ddata ganolog o'r holl wybodaeth bersonol.

Dylid cwblhau Cam 1 o fewn 1-3 diwrnod gwaith i dderbyn y cais.

CAM 3

Dechrau casglu'r wybodaeth

Mae'n rhaid i'r swyddog dynodedig gael gafael ar yr wybodaeth y gofynnir amdani a'i chasglu cyn gynted ag y bo modd.

Cwrdd â'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Swyddog Diogelu Data (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol) neu'r Cyfreithiwr Corfforaethol

Os gwneir cais, ac os oes angen, bydd y swyddog dynodedig yn trafod y cais â'r Swyddog Diogelu Data er mwyn penderfynu sut i ymateb i'r cais yn unol â'r eithriadau a geir yn y Ddeddfwriaeth. Efallai bydd angen cael cyngor cyfreithiol ar faterion sy'n codi o'r cais. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod unrhyw gyfarfod o'r fath yn cael ei drefnu'n brydlon er mwyn sicrhau y gellir bodloni'r dyddiad cau terfynol.

Mae'n rhaid cwblhau Cam 2 o fewn 10 niwrnod calendr i dderbyn y cais

CAM 3

Trefnu i ddarparu'r wybodaeth

Yn sgîl y penderfyniad o ran sut i fynd i'r afael â'r cais, bydd y swyddog dynodedig yn ysgrifennu at yr ymholwr er mwyn rhoi gwybod iddynt fod yr wybodaeth y mae ganddynt hawl i'w gweld wedi dod i law, ac i gadarnhau'r dull a ddefnyddir er mwyn darparu'r wybodaeth iddo/iddi, neu'r camau sy'n cael eu dilyn gan y Corff Llywodraethu i fynd i'r afael â'r cais.

Os yw'r ymholwr yn cytuno, gellir cael mynediad drwy archwilio'n unig, fodd bynnag os oes angen copi ar yr ymholwr, dylid darparu hwn hefyd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn yn gofyn i'r ymholwr gasglu'r wybodaeth gan yr ysgol. Gwneir hyn at ddibenion diogelwch: gan ei fod yn debygol mewn nifer o achosion y bydd yr wybodaeth yn cynnwys data personol sensitif a allai arwain at ofid sylweddol neu niwed os gaiff ei golli neu ei gamgyfeirio.

Os yw'n bosibl, a chyda chaniatâd yr ymholwr, mae'n bosib trefnu cyfarfod ag ef er mwyn rhoi cyfle i esbonio'r wybodaeth, i osgoi unrhyw gamddehongliadau, i drafod cwestiynau etc., mewn perthynas â'r wybodaeth sy'n cael ei datgelu a/neu ei chadw'n ôl.

Mae'n rhaid cwblhau Cam 3 o fewn 25 niwrnod calendr i dderbyn y cais

CAM 4

Dod â'r cais i ben

Dylai'r Corff Llywodraethu bellach roi'r holl gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith, a chadarnhau'r holl weithredoedd angenrheidiol i'r ymholwr.

Lle bynnag y bo modd, dylai'r holl wybodaeth gael ei chasglu o'r ysgol gan yr ymholwr neu gan berson sy'n ymddwyn ar ei ran, neu gael ei rhoi'n bersonol gan weithiwr o'r Corff Llywodraethu, os yw'n ymarferol. Cyn cael yr wybodaeth, mae'n rhaid i'r ymholwr neu gynrychiolydd yr ymholwr ddangos prawf o hunaniaeth - caiff yr angen i wneud hyn ei egluro iddo yn y llythyr sy'n cadarnhau trefniadau ar gyfer darparu'r wybodaeth. Wrth gasglu gwybodaeth, byddwch yn wyliadwrus o gynnwys gwybodaeth bersonol am bobl eraill yn ddamweiniol.

Ni ddylid anfon gwybodaeth drwy'r post oni bai y rhoddir caniatâd gan Reolwr Atebol yn gyntaf a bod yr ymholwr wedi gwneud cais penodol i dderbyn gwybodaeth yn y

modd hwn. Mae'n rhaid defnyddio danfoniad cofnodedig i anfon unrhyw wybodaeth drwy'r post. Mae'n rhaid llunio cofnod cyflwyno ysgrifenedig mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno â llaw (e.e. gan bwy a phryd).

Mae'n rhaid cwblhau Cam 4 o fewn 30 niwrnod calendr i dderbyn y cais

Arferion Gweinyddol

Dylid creu a chadw ffeiliau ar wahân ar gyfer pob cais.

HAWLIAU O DAN DDEDDFWRIAETH

Yr hawl i gael gwybodaeth

Pa wybodaeth y mae gan unigolyn hawl i'w gweld o dan y Ddeddfwriaeth?

O dan y Ddeddfwriaeth, bydd gan unigolion yr hawl i gael:

- cadarnhad bod eu data'n cael ei brosesu;
- mynediad at ddata personol; a
- gwybodaeth atodol arall - mae hyn yn cyfateb yn fras i'r wybodaeth y dylid ei darparu mewn hysbysiad preifatrwydd (gweler Erthygl 15).

Beth yw diben yr hawl i fynediad o dan Ddeddfwriaeth?

Mae'r Ddeddfwriaeth yn egluro mai'r rheswm dros ganiatáu i unigolion gael mynediad i'w data personol yw fel eu bod yn ymwybodol o gyfreithlondeb y prosesu ac yn gallu ei ddilysu (Datganiad 63).

A allaf godi tâl am fynd i'r afael â chais gwrthrych am wybodaeth?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ddarparu copi o'r wybodaeth **am ddim**. Fodd bynnag, gall y Corff Llywodraethu godi 'ffi resymol' os yw cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, yn enwedig os yw'n ailadroddus.

Gall y Corff Llywodraethu hefyd godi ffi resymol i gydymffurfio â cheisiadau am gopiâu ychwanegol o'r un wybodaeth. Nid yw hyn yn golygu y gall y Corff Llywodraethu godi tâl am bob cais dilynol am wybodaeth.

Mae'n rhaid i'r ffi fod yn seiliedig ar y gost weinyddol o ddarparu'r wybodaeth.

Faint o amser sydd gennyf i gydymffurfio?

Mae'n rhaid darparu gwybodaeth heb oedi ac **o fewn mis i dderbyn y cais** fan bellaf.

Bydd y Corff Llywodraethu hefyd yn gallu ymestyn y cyfnod cydymffurfio am ddeufis yn ychwanegol os yw ceisiadau'n gymhleth neu'n niferus. Os mai dyma yw'r achos, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ddweud wrth yr unigolyn o fewn un mis i dderbyn y cais ac esbonio pam fod angen ymestyn y cyfnod.

Beth os yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol?

Os yw cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, yn enwedig os yw'n ailadroddus, gall y Corff Llywodraethu:

- godi ffi resymol gan ystyried costau gweinyddol darparu'r wybodaeth; neu
- wrthod ymateb.

Os yw'r Corff Llywodraethu'n gwrthod ymateb i gais, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu esbonio'r rhesymeg i'r unigolyn, gan roi gwybod iddo am ei hawl i gwyno i'r Corff Llywodraethu goruchwyliol ac i rwymedi barnwrol heb unrhyw oedi ac o fewn mis fan bellaf.

Sut dylid darparu'r wybodaeth?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gwirio hunaniaeth y person sy'n cyflwyno'r cais, gan ddefnyddio 'dulliau rhesymol'.

Os cyflwynir y cais yn electronig, dylai'r Corff Llywodraethu ddarparu'r wybodaeth mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredinol.

Mae'r Ddeddfwriaeth yn cynnwys argymhelliad arfer gorau sy'n nodi y dylai sefydliadau, lle y bo'n bosibl, allu darparu mynediad o bell i system hunanwasanaeth ddiogel a fyddai'n caniatáu i'r unigolyn gael mynediad uniongyrchol at ei wybodaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw hyn bob amser yn bosib.

Ni ddylai'r hawl i gael copi o wybodaeth neu i gael mynediad at ddata personol drwy system ddiogel y ceir mynediad iddi o bell effeithio'n andwyol ar hawliau a rhyddid unigolion eraill.

Beth am geisiadau am lawer o ddata personol?

Os yw'r Corff Llywodraethu'n prosesu llawer o wybodaeth am unigolyn, mae'r Ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r Corff Llywodraethu ofyn i'r unigolyn nodi'r wybodaeth y mae'r cais yn ymwneud â hi (Datganiad 63).

Nid yw'r Ddeddfwriaeth yn cynnwys cael eich eithrio o geisiadau am lawer o ddata, ond efallai gall y Corff Llywodraethu ystyried a yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol.

Yr Hawl i Gael Cywiriad

Beth yw'r hawl i gael cywiriad?

O dan Erthygl 16 y Ddeddfwriaeth mae gan unigolion yr hawl i gywiro data personol sy'n anghywir. Gall unigolyn gael yr hawl i gwblhau data personol nad yw'n gyflawn hefyd - er bydd hyn yn dibynnu ar ddibenion y prosesu. Gall hyn gynnwys ychwanegu datganiad atodol at y data anghyflawn.

Mae gan yr hawl hon gysylltiadau agos ag egwyddor cywirdeb y Ddeddfwriaeth (Erthygl 5(1)(d)). Fodd bynnag, er efallai fod y Corff Llywodraethu wedi cymryd camau i sicrhau bod y data personol yn gywir yn ystod y cyfnod y cafwyd y data gan y Corff Llywodraethu, mae'r hawl hon yn rhoi rhwymedigaeth benodol i ailystyried y cywirdeb ar gais.

Beth y mae'n rhaid i ni ei wneud?

Os yw'r Corff Llywodraethu'n derbyn cais i gael cywiriad, dylai'r Corff Llywodraethu gymryd camau rhesymol i fodloni'r Corff Llywodraethu bod y data'n gywir ac i gywiro'r data os oes angen. Dylai'r Corff Llywodraethu ystyried y dadleuon a'r dystiolaeth a roddwyd gan wrthrych y data.

Bydd penderfynu ar ba gamau sy'n rhesymol i'w cymryd yn dibynnu'n benodol ar natur y data personol ac at ba ddiben y bydd yn cael ei ddefnyddio. Po bwysicaf y bydd sicrhau bod y data personol yn gywir, pwysicaf fydd i'r Corff Llywodraethu wneud mwy o ymdrech i wirio'i gywirdeb ac, os yw'n angenrheidiol, gymryd camau i'w gywiro. Er enghraifft, dylai'r Corff Llywodraethu ymdrechu'n fwy i gywiro data personol anghywir os yw'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar unigolyn neu eraill, yn hytrach nag ymdrechu i gywiro rhai dibwys.

Gall y Corff Llywodraethu hefyd ystyried unrhyw gamau a gymerwyd ganddo eisoes i wirio cywirdeb y data cyn cael ei herio gan wrthrych y data.

Pryd mae data'n anghywir?

Nid yw'r Ddeddfwriaeth yn rhoi diffiniad o'r term cywirdeb. Fodd bynnag, mae'r Ddeddfwriaeth yn nodi bod data personol yn anghywir os yw'n wallus neu'n gamarweiniol o ran unrhyw fater o ffaith.

Beth dylem ni ei wneud am ddata sy'n cofnodi camgymeriad?

Gall penderfynu a yw data personol yn anghywir fod yn fwy cymhleth os yw'r data'n cyfeirio at gamsyniad sydd wedi'i gywiro wedi hynny. Efallai bydd yn bosibl dadlau bod y cofnod o'r camsyniad ei hun yn gywir ac y dylid ei gadw. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd angen cynnwys cofnod o'r ffaith y gwnaed camsyniad, a'r wybodaeth gywir, yn nata'r unigolyn.

Beth dylem ei wneud am ddata sy'n dangos cofnod o farn sy'n destun dadl?

Mae hefyd yn gymhleth os yw'r data dan sylw'n cofnodi barn. Mae barnau, oherwydd eu natur, yn oddrychol, a gall fod yn anodd penderfynu os yw cofnod o farn yn anghywir. Ar yr amod y dengys y cofnod yn glir mai barn yw'r wybodaeth a barn pwy ydyw, lle y bo'n briodol gall fod yn anodd dweud ei fod yn anghywir a bod angen ei gywiro.

Beth dylem ei wneud pan rydym yn ystyried y cywirdeb?

O dan Erthygl 18 mae gan unigolyn yr hawl i ofyn am gyfyngu ar brosesu ei ddata personol os yw'n herio ei gywirdeb ac mae'r Corff Llywodraethu'n ei wirio. Fel mater o arfer da, dylai'r Corff Llywodraethu gyfyngu ar brosesu'r data personol dan sylw wrth iddo wirio ei gywirdeb, p'un a yw'r unigolyn wedi arfer ei hawl i gyfyngiad neu beidio. I gael mwy o wybodaeth, gweler ein harweiniad ar yr hawl i gyfyngiad.

Beth dylem ei wneud os rydym yn fodlon bod y data'n gywir?

Dylai'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn os yw'r Corff Llywodraethu'n fodlon bod y data personol yn gywir, a dweud wrtho na fydd yn diwygio'r data. Dylai'r Corff Llywodraethu esbonio'i benderfyniad, a dweud wrth yr unigolyn am ei hawl i gwyno i SCG neu Gorff Llywodraethu goruchwyliol arall, a'i allu i geisio arfer ei hawliau drwy rwymedi barnwrol.

Mae hefyd yn arfer da i gynnwys nodyn ar system y Corff Llywodraethu sy'n dangos bod yr unigolyn yn herio cywirdeb y data, a'i resymau dros wneud hyn.

A allwn ni wrthod cydymffurfio â'r cais am gywiriad am resymau eraill?

Gall y Corff Llywodraethu wrthod cydymffurfio â chais am gywiriad os yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gan ystyried a yw natur y cais yn ailadroddus.

Os yw'r Corff Llywodraethu'n ystyried bod cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gall y Corff Llywodraethu:

- ofyn am "ffi resymol" i fynd i'r afael â'r cais; neu

- wrthod mynd i'r afael â'r cais.

Yn y naill achos neu'r llall, bydd angen i'r Corff Llywodraethu gyfiawnhau ei benderfyniad.

Dylai'r Corff Llywodraethu seilio'r ffi resymol ar gostau gweinyddol cydymffurfio â'r cais. Os yw'r Corff Llywodraethu'n penderfynu codi tâl, dylai gysylltu â'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis. Nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'r cais nes iddo dderbyn y ffi.

Beth dylem ei wneud os rydym yn gwrthod cydymffurfio â chais am gywiriad?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis i dderbyn y cais am:

- y rhesymau pam nad yw'r Corff Llywodraethu'n gweithredu;
- ei hawl i wneud cwyn i SCG neu Gorff Llywodraethu goruchwyliol arall; a'i
- allu i geisio arfer yr hawl hon drwy rwymedi barnwrol.

Dylai'r Corff Llywodraethu hefyd ddarparu'r wybodaeth hon os yw'r Corff Llywodraethu'n gofyn am ffi resymol neu os oes angen gwybodaeth ychwanegol arno er mwyn adnabod yr unigolyn.

Sut gallwn gydnabod cais?

Nid yw'r Ddeddfwriaeth yn nodi sut i wneud cais dilys. Felly, gall unigolyn gyflwyno cais am gywiriad ar lafar neu'n ysgrifenedig. Gellir hefyd gyflwyno'r cais i unrhyw ran o sefydliad y Corff Llywodraethu, ac nid oes angen gofyn i berson neu bwynt cyswllt penodol.

Nid oes angen i gais i gywiro data personol grybwyll yr ymadrodd 'cais am gywiriad' neu Erthygl 16 y Ddeddfwriaeth er mwyn iddo fod yn ddilys. Ar yr amod bod yr unigolyn wedi herio cywirdeb ei ddata ac wedi gofyn i'r Corff Llywodraethu ei gywiro, neu ei fod wedi gofyn i'r Corff Llywodraethu gymryd camau i gwblhau data amdano sy'n anghyflawn, bydd y cais hwn yn ddilys o dan Erthygl 16.

Mae hyn yn cyflwyno her gan y gallai unrhyw un o weithwyr y Corff Llywodraethu dderbyn cais dilys ar lafar. Fodd bynnag, mae gan y Corff Llywodraethu gyfrifoldeb cyfreithiol i nodi bod unigolyn wedi cyflwyno cais iddo, ac i fynd i'r afael ag ef yn briodol. O ganlyniad, efallai bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried pa aelod o'i staff sy'n aml yn rhyngweithio ag unigolion y mae angen hyfforddiant penodol arno er mwyn gallu cydnabod cais.

Yn ychwanegol, mae'n arfer da i gael polisi ar gyfer cofnodi manylion y ceisiadau mae'r Corff Llywodraethu'n eu derbyn, yn enwedig y rheiny a wneir dros y ffôn neu'n bersonol. Efallai bydd y Corff Llywodraethu am wirio gyda'r ymholwr fod y Corff Llywodraethu wedi deall ei gais, gan y gall hyn helpu i osgoi dadleuon am sut mae'r Corff Llywodraethu wedi deall y cais yn hwyrach. Rydym hefyd yn argymhell bod y Corff Llywodraethu'n cadw cofnod o geisiadau a gyflwynwyd ar lafar.

A allwn godi tâl?

Na - yn y rhan fwyaf o achosion, ni all y Corff Llywodraethu godi tâl i gydymffurfio â chais am gywiriad.

Fodd bynnag, fel a nodwyd uchod, os yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gall y Corff Llywodraethu godi "ffi resymol" ar gyfer costau gweinyddol cydymffurfio â'r cais.

Faint o amser sydd gennym i gydymffurfio?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu weithredu ar gais heb oedi ac o fewn mis i dderbyn y cais fan bellaf.

Dylai'r Corff Llywodraethu gyfrifo'r terfyn amser o'r diwrnod ar ôl i'r Corff Llywodraethu dderbyn y cais (boed a yw'r diwrnod canlynol yn ddiwrnod gwaith neu beidio) tan ddyddiad calendr cyfatebol y mis canlynol.

A allwn estyn yr amser i ymateb i gais?

Gall y Corff Llywodraethu estyn yr amser i ymateb i gais hyd at ddeufis yn ychwanegol os yw'r cais yn gymhleth neu os yw'r Corff Llywodraethu wedi derbyn nifer o geisiadau gan yr unigolyn. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis i dderbyn ei gais, gan esbonio pam mae angen estyn yr amser.

Gall yr amgylchiadau sy'n caniatáu i'r Corff Llywodraethu estyn yr amser gynnwys ystyried ymhellach gywirdeb y data sy'n destun dadl - er gall y Corff Llywodraethu wneud hyn mewn achosion cymhleth yn unig - ac ar ddiwedd y cyfnod estynedig efallai bydd y Corff Llywodraethu'n rhoi gwybod i'r unigolyn ei fod yn ystyried bod y data dan sylw'n gywir.

Fodd bynnag, barn SCG yw ei fod yn annhebygol o fod yn rhesymol i estyn y terfyn amser:

- os yw'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol;
- os yw eithriad yn berthnasol; neu

- os yw'r Corff Llywodraethu'n gofyn am brawf hunaniaeth cyn ystyried y cais.

A oes modd i ni ofyn i unigolyn am brawf adnabod?

Os oes gan y Corff Llywodraethu unrhyw amheuaeth am hunaniaeth y person sy'n gwneud y cais, gall y Corff Llywodraethu ofyn am fwy o wybodaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Corff Llywodraethu'n gofyn am wybodaeth sy'n angenrheidiol i gadarnhau pwy yw ef yn unig. Mae cymesurolddeb yn allweddol i hyn. Dylai'r Corff Llywodraethu ystyried pa ddata sydd ganddo, natur y data, ac at ba ddiben y defnyddir y data hwn.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis fod angen mwy o wybodaeth ar y Corff Llywodraethu i gadarnhau ei hunaniaeth. Nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'r cais tan iddo dderbyn yr wybodaeth ychwanegol.

Oes rhaid i ni ddweud wrth sefydliadau eraill os rydym yn cywiro data personol?

Os yw'r Corff Llywodraethu wedi datgelu'r data personol i eraill, mae'n rhaid iddo gysylltu â phob derbynnydd a rhoi gwybod iddo fod y data personol wedi'i gywiro neu ei gwblhau - oni bai fod hyn yn amhosib neu'n cynnwys ymdrech anghymesur. Os gofynnir iddo, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn am y derbynwyr hyn hefyd.

Yn ôl y Ddeddfwriaeth, diffinnir derbynnydd fel person naturiol neu gyfreithiol, Corff Llywodraethu cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall y datgelir y data personol iddo. Mae'r diffiniad yn cynnwys rheolwyr, prosesyddion ac unigolion y mae ganddynt awdurdod i brosesu data personol dan Gorff Llywodraethu uniongyrchol y rheolwr neu'r prosesydd.

Yr Hawl i Ddileu

Beth yw'r hawl i ddileu?

O dan Erthygl 17 y Ddeddfwriaeth mae gan unigolion yr hawl i ddileu data personol. Adwaenir hyn hefyd fel 'yr hawl i gael eich anghofio'. Nid yw'r hawl yn ddiamod ac mae'n gymwys mewn rhai amgylchiadau penodol yn unig.

Pryd mae'r hawl i ddileu'n gymwys?

Mae gan unigolion yr hawl i ddileu eu data personol dan yr amgylchiadau hyn:

- nid oes angen y data personol mwyach at y diben y casglwyd neu y proseswyd y data ar ei gyfer gan y Corff Llywodraethu'n wreiddiol;
- mae'r Corff Llywodraethu'n dibynnu ar ganiatâd fel ei sail gyfreithlon dros gadw'r data, ac mae'r unigolyn yn tynnu ei ganiatâd yn ôl;
- mae'r Corff Llywodraethu'n dibynnu ar fuddion cyfreithlon fel ei sail ar gyfer prosesu, ac mae'r unigolyn yn gwrthwynebu iddo brosesu ei ddata, ac nid oes unrhyw fudd cyfreithiol hollbwysig dros barhau â'r prosesu hwn;
- mae'r Corff Llywodraethu'n prosesu'r data personol at ddibenion marchnata unionyrchol ac mae'r unigolyn yn gwrthwynebu'r prosesu hwn;
- mae'r Corff Llywodraethu wedi prosesu'r data personol yn anghyfreithlon (e.e. gan dorri gofyniad cyfreithlondeb yr egwyddor 1af);
- mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ei wneud er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol; neu
- mae'r Corff Llywodraethu wedi prosesu'r data personol er mwyn cynnig gwasanaethau cymdeithas wybodaeth i blentyn.

Sut mae'r hawl i ddileu'n gymwys i'r data a gasglwyd gan blant?

Mae pwyslais ar yr hawl i ddileu data personol os yw'r cais mewn perthynas â data a gasglwyd gan blant. Mae hyn yn adlewyrchu gwell diogelwch o ran gwybodaeth plant, yn enwedig ar-lein, o dan y Ddeddfwriaeth.

Felly, os yw'r Corff Llywodraethu'n prosesu data a gasglwyd gan blant, dylai roi mwy o ystyriaeth i unrhyw gais am ddileu os prosesir y data'n seiliedig ar ganiatâd gan blentyn - yn enwedig prosesu ei ddata personol ar y rhynggrwyd. Mae hyn yn dal i fod yn berthnasol os nad yw gwrthrych y data'n blentyn bellach gan efallai nad oedd y plentyn yn hollol ymwybodol o beryglon prosesu ar yr adeg y rhoddwyd caniatâd.

Oes rhaid i ni ddweud wrth sefydliadau eraill am ddileu data personol?

Mae'r Ddeddfwriaeth yn enwi dau amgylchiad lle dylai'r Corff Llywodraethu ddweud wrth sefydliadau eraill am ddileu data personol;

- datgelwyd y data personol i eraill; neu
- gwnaed y data personol yn gyhoeddus ar-lein (er enghraifft ar rwydweithiau cymdeithasol, fforymau neu wefannau).

Os datgelwyd y data personol i eraill gan y Corff Llywodraethu, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gysylltu â phob derbynnydd gan roi gwybod iddo am y dilead, oni bai fod hyn yn amhosib neu'n cynnwys ymdrech anghymesur. Os gofynnir iddo, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod iddo am y derbynwyr hyn.

Yn ôl y Ddeddfwriaeth, diffinnir derbynnydd fel person naturiol neu gyfreithlon, Corff Llywodraethu cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall y datgelir y data personol iddo. Mae'r diffiniad yn cynnwys rheolwyr, prosesyddion ac unigolion y mae ganddynt awdurdod i brosesu data personol dan Gorff Llywodraethu uniongyrchol y rheolwr neu'r prosesydd.

Os gwnaed data personol yn gyhoeddus ar-lein, dylid cymryd camau rhesymol i roi gwybod i reolwyr eraill sy'n prosesu'r data personol fod angen dileu dolenni i'r data hwnnw neu gopiau o'r data. Wrth benderfynu ar ba camau sy'n rhesymol i'w cymryd, dylai'r Corff Llywodraethu ystyried y dechnoleg sydd ar gael a chost cyflawni'r camau hyn.

Pryd nad yw'r hawl i ddileu'n berthnasol?

Bydd yr hawl i ddileu'n amherthnasol os yw prosesu'n angenrheidiol am un o'r rhesymau canlynol:

- i arfer yr hawl i ryddid mynegiant a gwybodaeth;
- i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;
- er mwyn perfformio tasg a gyflawnwyd er budd y cyhoedd neu fel rhan o arfer swyddogol y Corff Llywodraethu;
- at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, ymchwil wyddonol, ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol lle mae dileu'n debygol o wneud y prosesu hwnnw'n amhosib neu'n debygol o effeithio'n ddifrifol arno; neu
- i sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol.

Mae'r Ddeddfwriaeth hefyd yn nodi dau amgylchiad lle na fydd yr hawl i ddileu'n berthnasol i ddata o gategori arbennig:

- os yw'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion iechyd cyhoeddus er budd y cyhoedd (e.e. diogelu yn erbyn bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd, neu sicrhau

safonau uchel o ansawdd a diogelwch gofal iechyd a deunyddiau meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol); neu

- os yw'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion meddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol (e.e. lle mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer gallu gweithiwr i gyflawni swydd; ar gyfer diagnosis meddygol; i ddarparu gofal iechyd neu gymdeithasol; neu i reoli systemau neu wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol). Mae hyn yn berthnasol os yw'r data'n cael ei brosesu gan weithiwr proffesiynol sy'n destun rhwymedigaeth gyfreithiol cyfrinachedd proffesiynol, neu dan gyfrifoldeb gweithiwr o'r fath (e.e. gweithiwr iechyd proffesiynol).

A allwn ni wrthod cydymffurfio â chais am resymau eraill?

Gall y Corff Llywodraethu wrthod cydymffurfio â chais am ddileu os yw'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gan ystyried a yw natur y cais yn ailadroddus.

Os yw'r Corff Llywodraethu'n ystyried bod cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gall:

- ofyn am "ffi resymol" i fynd i'r afael â'r cais; neu
- wrthod mynd i'r afael â'r cais.

Yn y naill achos neu'r llall, bydd angen i'r Corff Llywodraethu gyfiawnhau ei benderfyniad.

Dylai'r Corff Llywodraethu seilio'r ffi resymol ar gostau gweinyddol cydymffurfio â'r cais. Os yw'r Corff Llywodraethu'n penderfynu codi tâl, dylai gysylltu â'r unigolyn heb oedi er mwyn rhoi gwybod iddo. Nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'r cais tan iddo dderbyn y ffi.

Ceir eithriadau arfaethedig eraill o'r hawl i ddileu, a chânt eu cynnwys yn Neddf Diogelu Data 2018.

Os oes angen cyngor ynghylch a ddylid gwrthod cydymffurfio â chais neu beidio, gweler cyngor y Cyfreithiwr Corfforaethol neu Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Beth dylem ei wneud os rydym yn gwrthod cydymffurfio â chais i ddileu?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis i dderbyn y cais.

Dylai'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn am:

- y rhesymau pam nad yw'r Corff Llywodraethu'n cymryd camau gweithredu;
- ei hawl i gyflwyno cwyn i SCG neu awdurdod goruchwyliol arall; ac
- ei allu i geisio arfer yr hawl hon drwy rwymedi barnwrol.

Dylai'r Corff Llywodraethu hefyd ddarparu'r wybodaeth hon os yw'n gofyn am ffi resymol neu os oes angen mwy o wybodaeth arno er mwyn adnabod yr unigolyn.

Sut rydym yn cydnabod cais?

Nid yw'r Ddeddfwriaeth yn nodi sut i wneud cais dilys. Felly, gall unigolyn wneud cais am ddileu ar lafar neu'n ysgrifenedig. Gellir hefyd wneud cais i unrhyw ran o sefydliad y Corff Llywodraethu ac nid oes angen gwneud cais i berson neu bwynt cyswllt penodol.

Nid oes angen i gais gynnwys yr ymadrodd 'cais i ddileu', ar yr amod bod un o'r amodau a restrir uchod yn berthnasol.

Mae hyn yn cyflwyno her gan y gallai unrhyw un o weithwyr y Corff Llywodraethu dderbyn cais dilys ar lafar. Fodd bynnag, mae gan y Corff Llywodraethu gyfrifoldeb cyfreithiol i nodi bod unigolyn wedi cyflwyno cais i'r Corff Llywodraethu, ac i fynd i'r afael ag ef yn briodol. O ganlyniad, efallai bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried pa aelod o'i staff sy'n aml yn rhyngweithio ag unigolion y mae angen hyfforddiant penodol arno er mwyn gallu cydnabod cais.

Yn ychwanegol, mae'n arfer da i gael polisi er mwyn cofnodi manylion y ceisiadau mae'r Corff Llywodraethu'n eu derbyn, yn enwedig y rheiny a wneir dros y ffôn neu'n bersonol. Efallai bydd y Corff Llywodraethu am wirio gyda'r ymholwr fod y Corff Llywodraethu wedi deall ei gais, gan y gall hyn helpu i osgoi dadleuon am sut mae'r Corff Llywodraethu wedi dehongli'r cais yn hwyrach. Rydym hefyd yn argymhell bod y Corff Llywodraethu'n cadw cofnod o geisiadau a gyflwynwyd ar lafar.

A allwn godi tâl?

Na - yn y rhan fwyaf o achosion, ni all y Corff Llywodraethu godi tâl i gydymffurfio â chais am ddileu.

Fodd bynnag, fel a nodwyd uchod, os yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gall y Corff Llywodraethu godi "ffi resymol" ar gyfer costau gweinyddol cydymffurfio â'r cais.

Faint o amser sydd gennym i gydymffurfio?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu weithredu ar gais heb oedi ac o fewn mis i dderbyn y cais fan bellaf.

Dylai'r Corff Llywodraethu gyfrifo'r terfyn amser o'r diwrnod ar ôl i'r Corff Llywodraethu dderbyn y cais (boed a yw'r diwrnod canlynol yn ddiwrnod gwaith neu beidio) tan ddyddiad calendr cyfatebol y mis canlynol.

A allwn estyn yr amser i ymateb i gais?

Gall y Corff Llywodraethu estyn yr amser i ymateb i gais hyd at ddeufis yn ychwanegol os yw'r cais yn gymhleth neu os yw'r Corff Llywodraethu wedi derbyn nifer o geisiadau gan yr unigolyn. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ddweud wrth yr unigolyn heb oedi ac o fewn mis i dderbyn y cais ac esbonio pam mae angen ehangu'r cyfnod.

Fodd bynnag, barn y SCG yw ei fod yn annhebygol o fod yn rhesymol i estyn y terfyn amser:

- os yw'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol;
- os yw eithriad yn berthnasol; neu
- os yw'r Corff Llywodraethu'n gofyn am brawf hunaniaeth cyn ystyried y cais.

A oes modd i ni ofyn i unigolyn am brawf adnabod?

Os oes gan y Corff Llywodraethu unrhyw amheuaeth am hunaniaeth y person sy'n gwneud y cais, gall y Corff Llywodraethu ofyn am fwy o wybodaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Corff Llywodraethu'n gofyn am wybodaeth sy'n angenrheidiol i gadarnhau pwy yw ef yn unig. Mae cymesurolddeb yn allweddol i hyn. Dylai'r Corff Llywodraethu ystyried pa data sydd ganddo, natur y data, ac at ba diben y defnyddir y data hwn gan y Corff Llywodraethu.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis fod angen mwy o wybodaeth ar y Corff Llywodraethu i gadarnhau ei hunaniaeth. Nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'r cais tan iddo dderbyn yr wybodaeth ychwanegol.

Yr hawl i gyfyngu ar brosesu

Beth yw'r hawl i gyfyngu ar brosesu?

Mae'r Ddeddfwriaeth yn rhoi hawl i unigolion gyfyngu ar brosesu eu data personol mewn rhai amgylchiadau penodol. Golyga hyn y gall unigolyn gyfyngu ar y ffordd y mae sefydliad yn defnyddio ei ddata. Dyma ddewis amgen i ofyn i ddileu ei ddata.

Mae gan unigolion yr hawl i gyfyngu ar brosesu eu data personol os oes ganddynt reswm penodol dros gyfyngu arno. Gall hyn fod oherwydd bod ganddynt broblemau â chynnwys yr wybodaeth sydd gan y Corff Llywodraethu neu oherwydd y ffordd y proseswyd eu data gan y Corff Llywodraethu. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd angen i'r Corff Llywodraethu gyfyngu ar ddata personol unigolyn yn ddiderfyn, ond bydd rhaid rhoi cyfyngiad ar waith am gyfnod penodol o amser.

Pryd mae'r hawl i gyfyngu ar brosesu'n berthnasol?

Mae gan unigolion yr hawl i ofyn i'r Corff Llywodraethu gyfyngu ar brosesu eu data personol dan yr amgylchiadau canlynol:

- mae'r unigolyn yn herio cywirdeb ei ddata personol ac mae'r Corff Llywodraethu'n gwirio cywirdeb y data;
- proseswyd y data'n anghyfreithlon (e.e. gan dorri gofynion cyfreithlondeb egwyddor gyntaf y Ddeddfwriaeth) ac mae'r unigolyn yn gwrthwynebu ei ddileu, gan ofyn am gyfyngu ar ei ddata yn lle hynny;
- nid oes angen y data personol ar y Corff Llywodraethu bellach, ond mae angen i'r unigolyn ofyn i'r Corff Llywodraethu ei gadw er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawl gyfreithiol; neu
- mae'r unigolyn wedi gwrthwynebu i'r Corff Llywodraethu brosesu ei ddata ac mae'r Corff Llywodraethu'n ystyried a yw ei seiliau cyfreithlon yn trechu sail yr unigolyn.

Er bod hyn yn wahanol i'r hawl i gywiro a'r hawl i wrthwynebu, ceir cysylltiadau agos rhwng yr hawliau hynny a'r hawl i gyfyngu ar brosesu;

os yw unigolyn wedi herio cywirdeb ei ddata ac wedi gofyn i'r Corff Llywodraethu ei gywiro, mae hefyd ganddo'r hawl i ofyn i'r Corff Llywodraethu gyfyngu ar y prosesu wrth i'r Corff Llywodraethu ystyried cais yr unigolyn i gael cywiriad; neu

- os yw unigolyn yn arfer ei hawl i wrthwynebu o dan Erthygl 21(1), mae hefyd ganddo'r hawl i ofyn i'r Corff Llywodraethu gyfyngu ar y prosesu wrth i'r Corff Llywodraethu ystyried gwrthwynebiad i gais yr unigolyn.

Felly, fel mater o arfer da, dylai'r Corff Llywodraethu gyfyngu ar brosesu data'r unigolyn yn awtomatig wrth i'r Corff Llywodraethu ystyried ei gywirdeb neu'r sail gyfreithlon dros brosesu'r data personol dan sylw.

Sut gallwn gyfyngu ar brosesu?

Mae angen i'r Corff Llywodraethu roi prosesau ar waith sy'n galluogi iddo gyfyngu ar ddata personol os oes angen. Mae'n bwysig nodi bod y diffiniad o brosesu'n cynnwys amrywiaeth eang o weithredoedd gan gynnwys casglu, strwythuro, lledaenu a dileu data. Yn hynny o beth, dylai'r Corff Llywodraethu ddefnyddio dulliau o gyfyngu ar brosesu sy'n addas ar gyfer y math o brosesu mae'r Corff Llywodraethu'n ei wneud.

Mae'r Ddeddfwriaeth yn awgrymu nifer o ffyrdd gwahanol y gellid eu defnyddio i gyfyngu ar ddata, megis:

- symud y data i system brosesu arall dros dro;
- sicrhau nad yw'r data ar gael i ddefnyddwyr; neu
- dynnu data a gyhoeddwyd oddi ar wefan dros dro.

Mae'n bwysig iawn bod y Corff Llywodraethu'n ystyried sut y gall storio data personol nad oes angen iddo ei brosesu bellach, ond mae'r unigolyn wedi gofyn i'r Corff Llywodraethu gyfyngu arno (gan ofyn i bob pwrpas i'r Corff Llywodraethu beidio â dileu'r data).

Os yw'r Corff Llywodraethu'n defnyddio system ffeilio awtomataidd, bydd angen iddo ddefnyddio mesurau technegol i sicrhau nad oes modd i unrhyw brosesu ychwanegol gael ei wneud, ac nad oes modd newid y data yn ystod cyfnod y cyfyngiad. Dylai'r Corff Llywodraethu hefyd nodi ar ei system y cyfyngwyd ar brosesu'r data hwn.

A oes modd i ni wneud unrhyw beth â data cyfyngedig?

Ni ddylai'r Corff Llywodraethu brosesu'r data cyfyngedig mewn unrhyw ffordd **heblaw am ei storio**, oni bai:

- fod gan y Corff Llywodraethu ganiatâd yr unigolyn;
- ei fod at ddibenion sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol;
- ei fod yn diogelu hawliau person arall (naturiol neu gyfreithiol); neu
- ei fod at ddibenion budd cyhoeddus pwysig.

A oes angen i ni ddweud wrth sefydliadau eraill am y cyfyngiad ar ddata personol?

Oes. Os datgelwyd y data personol dan sylw i eraill gan y Corff Llywodraethu, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gysylltu â phob derbynnydd a rhoi gwybod iddo am y cyfyngiad ar y data personol - oni bai fod hyn yn amhosib neu'n cynnwys ymdrech

anghymesur. Os gofynnir iddo, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn am y derbynwyr hyn hefyd.

Yn ôl y Ddeddfwriaeth, diffinnir derbynnydd fel person naturiol neu gyfreithiol, Corff Llywodraethu cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall y datgelir y data personol iddo. Mae'r diffiniad yn cynnwys rheolwyr, prosesyddion ac unigolion y mae ganddynt awdurdod i brosesu data personol dan Gorff Llywodraethu uniongyrchol y rheolwr neu'r prosesydd.

Pryd gallwn godi'r cyfyngiad?

Mewn llawer o achosion bydd cyfyngu ar brosesu'n parhau am gyfnod dros dro'n unig, yn benodol os gofynnwyd am gyfyngiad ar y sail bod:

- yr unigolyn wedi dadlau yn erbyn cywirdeb y data personol ac mae'r Corff Llywodraethu'n ymchwilio i hyn; neu
- fod yr unigolyn wedi gwrthwynebu i'r Corff Llywodraethu brosesu ei ddata ar y sail ei fod yn angenrheidiol er mwyn perfformio tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu at fuddion cyfreithlon y Corff Llywodraethu, ac mae'r Corff Llywodraethu'n ystyried a yw sail gyfreithlon y Corff Llywodraethu'n trechu sail yr unigolyn.

Ar ôl i'r Corff Llywodraethu benderfynu ar gywirdeb y data, neu a yw sail gyfreithlon y Corff Llywodraethu'n trechu sail yr unigolyn neu beidio, gall y Corff Llywodraethu benderfynu codi'r cyfyngiad.

Os yw'r Corff Llywodraethu'n gwneud hyn, mae'n rhaid iddo ddweud wrth yr unigolyn **cyn** iddo godi'r cyfyngiad.

Fel a nodwyd uchod, mae'r ddau amod hyn yn gysylltiedig â'r hawl i gael cywiriad (Erthygl 16) a'r hawl i wrthwynebu (Erthygl 21). Golyga hyn os yw'r Corff Llywodraethu'n rhoi gwybod i'r unigolyn ei fod yn codi'r cyfyngiad (ar y sail bod y Corff Llywodraethu'n fodlon ar y ffaith fod y data'n gywir, neu fod sail gyfreithlon y Corff Llywodraethu'n trechu sail yr unigolyn), dylai'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn am ei resymau dros wrthod arfer ei hawliau o dan Erthyglau 16 neu 21. Hefyd bydd angen i'r Corff Llywodraethu roi gwybod iddo am ei hawl i gwyno i SCG neu Gorff Llywodraethu goruchwyliol arall; a'i allu i geisio rhwymedi barnwrol.

A allwn ni wrthod cydymffurfio â chais am gyfyngiad?

Gall y Corff Llywodraethu wrthod cydymffurfio â chais am gyfyngiad os yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gan ystyried a yw natur y cais yn ailadroddus.

Os yw'r Corff Llywodraethu'n ystyried bod cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gall y Corff Llywodraethu:

- ofyn am "ffi resymol" i fynd i'r afael â'r cais; neu
- wrthod mynd i'r afael â'r cais.

Yn y naill achos bydd angen i'r Corff Llywodraethu gyfiawnhau ei benderfyniad.

Dylai'r Corff Llywodraethu seilio'r ffi resymol ar gostau gweinyddol cydymffurfio â'r cais. Os yw'r Corff Llywodraethu'n penderfynu codi tâl, dylai gysylltu â'r unigolyn heb oedi er mwyn rhoi gwybod iddo. Nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'r cais tan iddo dderbyn y ffi.

Ceir eithriadau arfaethedig eraill o'r hawl i ddileu, a chânt eu cynnwys yn Neddf Diogelu Data 2018.

Os oes angen cyngor ynghylch a ddylid gwrthod cydymffurfio â chais neu beidio, gweler cyngor y Cyfreithiwr Corfforaethol neu Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.

Beth dylem ei wneud os rydym yn gwrthod cydymffurfio â chais am gyfyngiad?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis i dderbyn y cais.

Dylai'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn am:

- y rhesymau pam nad yw'r Corff Llywodraethu'n cymryd camau gweithredu;
- ei hawl i gwyno i SCG neu awdurdod goruchwyliol arall; ac
- ei allu i geisio arfer yr hawl hon drwy rwymedi barnwrol.

Dylai'r Corff Llywodraethu hefyd ddarparu'r wybodaeth hon os yw'n gofyn am ffi resymol neu os oes angen mwy o wybodaeth arno er mwyn adnabod yr unigolyn.

Sut rydym yn cydnabod cais?

Nid yw'r Ddeddfwriaeth yn esbonio sut i wneud cais dilys. Felly, gall unigolyn wneud cais am gyfyngiad ar lafar neu'n ysgrifenedig. Gellir hefyd gyflwyno'r cais i unrhyw ran o sefydliad y Corff Llywodraethu, ac nid oes angen gofyn i berson neu bwynt cyswllt penodol.

Nid oes angen i gais gynnwys yr ymadrodd 'cais am gyfyngiad', ar yr amod bod un o'r amodau a restrir uchod yn berthnasol.

Mae hyn yn cyflwyno her gan y gallai unrhyw un o weithwyr y Corff Llywodraethu dderbyn cais dilys ar lafar. Fodd bynnag, mae gan y Corff Llywodraethu gyfrifoldeb

cyfreithiol i nodi bod unigolyn wedi cyflwyno cais i'r Corff Llywodraethu, ac i fynd i'r afael ag ef yn briodol. O ganlyniad, efallai bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried pa aelod o'i staff sy'n aml yn rhyngweithio ag unigolion y mae angen hyfforddiant penodol arno er mwyn gallu cydnabod cais.

Yn ychwanegol, mae'n arfer da i gael polisi er mwyn cofnodi manylion y ceisiadau mae'r Corff Llywodraethu'n eu derbyn, yn enwedig y rheiny a wneir dros y ffôn neu'n bersonol. Efallai bydd y Corff Llywodraethu am wirio gyda'r ymholwr fod y Corff Llywodraethu wedi deall ei gais, gan y gall hyn helpu i osgoi dadleuon am sut mae'r Corff Llywodraethu wedi dehongli'r cais yn hwyrach. Rydym hefyd yn argymhell bod y Corff Llywodraethu'n cadw cofnod o geisiadau a gyflwynwyd ar lafar.

A allwn godi tâl?

Na - yn y rhan fwyaf o achosion, ni all y Corff Llywodraethu godi tâl i gydymffurfio â chais am gyfyngiadau.

Fodd bynnag, fel a nodwyd uchod, os yw'r cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol, gall y Corff Llywodraethu godi "ffi resymol" ar gyfer costau gweinyddol cydymffurfio â'r cais.

Faint o amser sydd gennym i gydymffurfio?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu weithredu ar gais heb oedi ac o fewn mis i dderbyn y cais fan bellaf.

Dylai'r Corff Llywodraethu gyfrifo'r terfyn amser o'r diwrnod ar ôl i'r Corff Llywodraethu dderbyn y cais (boed a yw'r diwrnod canlynol yn ddiwrnod gwaith neu beidio) tan ddyddiad calendr cyfatebol y mis canlynol.

A allwn estyn yr amser i ymateb i gais?

Gall y Corff Llywodraethu estyn yr amser i ymateb i gais hyd at ddeufis yn ychwanegol os yw'r cais yn gymhleth neu os yw'r Corff Llywodraethu wedi derbyn nifer o geisiadau gan yr unigolyn. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis i dderbyn ei gais, gan esbonio pam mae angen estyn yr amser.

Fodd bynnag, barn y SCG yw ei fod yn annhebygol o fod yn rhesymol i estyn y terfyn amser:

- os yw'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol;
- os yw eithriad yn berthnasol; neu
- os yw'r Corff Llywodraethu'n gofyn am brawf hunaniaeth cyn ystyried y cais.

A oes modd i ni ofyn i unigolyn am brawf adnabod?

Os oes gan y Corff Llywodraethu unrhyw amheuaeth am hunaniaeth y person sy'n gwneud y cais, gall y Corff Llywodraethu ofyn am fwy o wybodaeth. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y Corff Llywodraethu'n gofyn am wybodaeth sy'n angenrheidiol i gadarnhau pwy yw ef yn unig. Mae cymesurolddeb yn allweddol i hyn. Dylai'r Corff Llywodraethu ystyried pa ddata sydd ganddo, natur y data, ac at ba ddiben y defnyddir y data hwn gan y Corff Llywodraethu.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn heb oedi ac o fewn mis fod angen mwy o wybodaeth ar y Corff Llywodraethu i gadarnhau ei hunaniaeth. Nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â'r cais tan iddo dderbyn yr wybodaeth ychwanegol.

Yr hawl i drosglwyddo data

Pryd mae'r hawl i drosglwyddo data'n berthnasol?

Mae'r hawl i drosglwyddo data'n berthnasol i'r canlynol yn unig:

- data personol mae unigolyn wedi ei ddarparu i reolwr;
- os yw'r prosesu'n seiliedig ar ganiatâd yr unigolyn neu berfformiad contract; a
- pha brosesu sy'n cael ei wneud trwy ddulliau awtomataidd.

Sut ydym yn cydymffurfio?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ddarparu'r wybodaeth bersonol mewn modd strwythuredig a chyfarwydd, ac ar ffurf sy'n ddarllenadwy gan beiriant. Mae fformatiau agored yn cynnwys ffeiliau CSV. Mae ffurfiau sy'n ddarllenadwy gan beiriant yn golygu bod yr wybodaeth wedi'i strwythuro mewn modd sy'n caniatáu i elfennau penodol o'r data gael eu tynnu allan. Mae hyn yn caniatáu i sefydliadau eraill ddefnyddio'r data.

Mae'n rhaid darparu'r wybodaeth hon am ddim.

Os yw'r unigolyn yn gofyn amdano, efallai bydd rhaid i'r Corff Llywodraethu drosglwyddo'r data i sefydliad arall yn uniongyrchol os yw'n dechnegol ymarferol. Fodd bynnag, nid oes angen i'r Corff Llywodraethu fabwysiadu neu gynnal systemau prosesu sy'n cyd-fynd yn dechnegol â sefydliadau eraill.

Os yw'r data personol yn ymwneud â mwy nag un person, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried a fyddai darparu'r wybodaeth yn niweidio hawliau unrhyw unigolyn arall.

Faint o amser sydd gennym i gydymffurfio?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ymateb heb oedi ac o fewn mis.

Gall y Corff Llywodraethu estyn yr amser hyd at ddeufis yn ychwanegol os yw'r cais yn gymhleth neu os yw'n derbyn nifer o geisiadau niferus. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i'r unigolyn o fewn mis i dderbyn y cais ac esbonio pam mae angen yr estyniad.

Os yw'r Corff Llywodraethu'n gwrthod ymateb i gais, mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu esbonio pam i'r unigolyn, gan roi gwybod iddo am ei hawl i gwyno i'r Corff Llywodraethu goruchwyliol ac i rwymedi barnwrol heb unrhyw oedi ac o fewn mis fan bellaf.

Yr hawl i wrthwynebu

Sut ydym yn cydymffurfio â'r hawl i wrthwynebu os ydym yn prosesu data personol er mwyn perfformio tasg gyfreithiol neu ar gyfer buddion cyfreithlon?

Mae'n rhaid i unigolion wrthwynebu "ar sail sy'n ymwneud â'i sefyllfa benodol".

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu atal prosesu'r data personol oni bai:

- y gall y Corff Llywodraethu ddangos sail gyfreithlon gymhellol dros y prosesu sy'n trechu buddion, hawliau a rhyddid yr unigolyn; neu
- fod angen prosesu er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi hawl i unigolyn wrthwynebu "ar adeg y cyfathrebu cyntaf" ac yn hysbysiad preifatrwydd y Corff Llywodraethu.

Mae'n rhaid i hyn "ddod i sylw gwrthrych y data a chael ei gyflwyno'n glir ac ar wahân i unrhyw wybodaeth arall".

Sut ydym yn cydymffurfio â'r hawl i wrthwynebu os ydym yn prosesu data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu atal prosesu data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol cyn gynted ag y mae'n derbyn gwrthwynebiad. Nid oes unrhyw eithriadau neu sail i wrthod.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu fynd i'r afael â gwrthwynebiad i brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol ar unrhyw adeg ac am ddim.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi hawl i unigolyn wrthwynebu "ar adeg y cyfathrebu cyntaf" ac yn hysbysiad preifatrwydd y Corff Llywodraethu.

Mae'n rhaid i hyn "ddod i sylw gwrthrych y data a chael ei gyflwyno'n glir ac ar wahân i unrhyw wybodaeth arall".

Sut ydym yn cydymffurfio â'r hawl i wrthwynebu os ydym yn prosesu data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol?

Mae'n rhaid i unigolion gael "sail sy'n ymwneud â'i sefyllfa benodol" er mwyn arfer ei hawl i wrthwynebu prosesu at ddibenion ymchwil.

Os yw'r Corff Llywodraethu'n cynnal ymchwil lle mae'n angenrheidiol prosesu data personol er mwyn perfformio tasg er budd y cyhoedd, nid oes angen i'r Corff Llywodraethu gydymffurfio â gwrthwynebiad i'r prosesu.

Sut ydym yn cydymffurfio â'r hawl i wrthwynebu os yw gweithgareddau prosesu'n rhan o un o'r categorïau uchod ac yn cael eu cynnal ar-lein?

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu gynnig ffordd i unigolion wrthwynebu ar-lein.

Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd gan gynnwys proffilio

Beth yw gwneud penderfyniadau unigol awtomataidd a phroffilio?

Gwneud penderfyniadau unigol awtomataidd a phroffilio yw penderfyniad a wnaed mewn modd awtomataidd heb unrhyw gyfranogaeth ddynol.

Nid oes rhaid i wneud penderfyniadau unigol awtomataidd gynnwys proffilio, er dyma fydd yr achos yn aml.

Gall y Corff Llywodraethu gael gafael ar wybodaeth bersonol am unigolion o amrywiaeth o ffynonellau gwahanol. Mae chwilio'r rhynggrwyd, tueddiadau prynu, data am ffordd o fyw ac ymddygiad a gesglir ar ffonau symudol, rhwydweithiau cymdeithasol, systemau gwyliadwriaeth fideo a'r 'rhynggrwyd dyfeisiau' yn enghreifftiau o rai o'r mathau o ddata y gallai sefydliadau eu casglu.

Caiff yr wybodaeth ei dadansoddi er mwyn trefnu pobl mewn grwpiau neu sectorau gwahanol, gan ddefnyddio algorithmau a dysgu â pheiriannau. Mae'r dadansoddiad yn nodi cysylltiadau rhwng ymddygiadau a nodweddion gwahanol er mwyn creu proffiliau ar gyfer unigolion. Ceir mwy o wybodaeth am algorithmau a dysgu â pheiriant yn ein papur ar ddata mawr, deallusrwydd artiffisial, dysgu â pheiriant a diogelu data.

Yn seiliedig ar nodweddion eraill sy'n ymddangos yn debyg, mae sefydliadau'n defnyddio proffilio er mwyn:

- darganfod rhywbeth am hoffterau unigolyn;
- rhagfynegi ei ymddygiad; ac/neu
- wneud penderfyniadau amdano.

Gall wneud penderfyniad unigol awtomataidd a phroffilio arwain at wneud penderfyniadau'n gyflymach ac yn fwy cyson. Ond os cânt eu defnyddio'n anghyfrifol, bydd peryglon sylweddol i unigolion. Dyluniwyd darpariaethau'r Ddeddfwriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r peryglon hyn.

Beth mae'r Ddeddfwriaeth yn ei ddweud am wneud penderfyniadau unigol awtomataidd a phroffilio?

Mae'r Ddeddfwriaeth yn atal y Corff Llywodraethu rhag gwneud penderfyniadau'n awtomataidd yn unig, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar broffilio, os cânt effaith gyfreithiol neu effeithiau o bwys tebyg ar unigolion.

Er mwyn i rywbeth fod yn awtomataidd yn unig ni ddylai fod unrhyw gyfranogaeth ddynol yn ystod y broses benderfynu.

Mae'r cyfyngiad yn berthnasol i wneud penderfyniadau unigol awtomataidd sy'n achosi effeithiau cyfreithiol neu effeithiau o bwys tebygol yn unig. Ni ddifinnir y mathau hyn o effeithiau yn y Ddeddfwriaeth, ond mae'n rhaid i'r penderfyniad gael effaith negyddol sylweddol ar unigolyn er mwyn bod yn berthnasol i'r ddarpariaeth hon.

Mae effaith gyfreithiol yn rhywbeth sy'n effeithio'n andwyol ar hawliau cyfreithiol unigolyn. Mae effeithiau o bwys tebyg yn anoddach i'w diffinio, ond maent yn cynnwys gwrthod cais am gerdyn credyd ar-lein yn awtomataidd, ac arferion e-recriwtio heb ymyriad dynol, er enghraifft.

Pryd gallwn gynnal y math hwn o brosesu?

Mae gwneud penderfyniadau unigol awtomataidd - gan gynnwys proffilio - yn gyfyngedig os ceir effeithiau cyfreithiol neu effeithiau o bwys tebyg, er gellir codi'r cyfyngiad hwn mewn rhai amgylchiadau.

Gall y Corff Llywodraethu wneud penderfyniadau'n awtomataidd sy'n cael effeithiau cyfreithiol neu effeithiau o bwys tebyg dan yr amgylchiadau canlynol **yn unig**:

- mae'r penderfyniad yn angenrheidiol er mwyn cytuno ar gontract rhwng sefydliad a'r unigolyn, neu weithredu contract o'r fath;
- mae'r penderfyniad yn awdurdodedig dan y gyfraith (er enghraifft, at ddibenion twyll neu efadu trethi); neu
- mae'r penderfyniad yn seiliedig ar ganiatâd clir yr unigolyn.

Os yw'r Corff Llywodraethu'n defnyddio data personol categori arbennig gall y Corff Llywodraethu gynnal prosesu a ddisgrifir yn Erthygl 22(1) **ar yr amod**:

- bod gan y Corff Llywodraethu ganiatâd clir yr unigolyn; **neu**
- fod y prosesu'n angenrheidiol at ddibenion budd cyhoeddus sylweddol.

Beth arall mae'n rhaid i ni ei ystyried?

Oherwydd ystyrir bod y math hwn o brosesu yn risg uchel, mae'r Ddeddfwriaeth yn gofyn i'r Corff Llywodraethu gynnal Asesiad Effaith Diogelu Data i ddangos ei fod wedi nodi ac asesu beth yw'r risgiau hynny a sut bydd y Corff Llywodraethu'n mynd i'r afael â nhw.

Yn ogystal â chyfyngu ar yr amgylchiadau lle gall y Corff Llywodraethu wneud penderfyniad unigol awtomataidd yn unig (fel a ddisgrifir yn Erthygl 22(1)), mae'r Ddeddfwriaeth hefyd yn:

- gofyn i'r Corff Llywodraethu roi gwybodaeth benodol i unigolion am y prosesu;

- gorfodi'r Corff Llywodraethu i gymryd camau i atal camgymeriadau, tuedd a gwahaniaethu; ac
- yn rhoi hawliau i unigolion herio'r penderfyniad a gofyn am adolygiad ohono.

Dyluniwyd y darpariaethau hyn er mwyn cynyddu dealltwriaeth unigolion o sut gallai'r Corff Llywodraethu ddefnyddio eu data personol.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu:

- ddarparu gwybodaeth ystyrlon am y rhesymeg sy'n rhan o'r broses benderfynu, yn ogystal ag arwyddocâd a chanlyniadau rhagweledig y penderfyniad i'r unigolyn;
- defnyddio gweithdrefnau mathemategol neu ystadegol addas;
- sicrhau y gall unigolion:
- (a) dderbyn ymyrraeth ddynol;
- (b) mynegi eu barn; a
- (c) chael esboniad o'r penderfyniad a'i herio;
- rhoi mesurau technegol a sefydliadol addas ar waith, fel y gall y Corff Llywodraethu gywiro camgymeriadau a lleihau'r perygl o wallau;
- diogelu data personol mewn ffordd sy'n gyfatebol i'r risg o ran buddion a hawliau'r unigolyn, ac sy'n atal effeithiau gwahaniaethol.

Beth os nad yw Erthygl 22 yn gymwys i'n prosesu?

Mae Erthygl 22 yn berthnasol i wneud penderfyniadau unigol awtomataidd yn unig, gan gynnwys proffilio, sy'n arwain at effeithiau cyfreithiol neu effeithiau o bwys tebyg.

Os nad yw prosesu'r Corff Llywodraethu'n cyd-fynd â'r diffiniad hwn, gall y Corff Llywodraethu barhau i gynnal proffilio a gwneud penderfyniadau awtomataidd.

Ond mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu barhau i gydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth.

Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu nodi a chofnodi ei sail gyfreithlon ar gyfer y prosesu.

Mae angen i'r Corff Llywodraethu roi prosesau ar waith er mwyn i bobl allu arfer eu hawliau.

Mae gan unigolion hawl i wrthwynebu proffilio mewn amgylchiadau penodol. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi gwybod i unigolion am fanylion yr hawl hon yn benodol.